


ECO'R WYDDFA

RHIF 357

GORFFENNAF 2008

PRIS 40c

ENAIID HOFF CYTÛN



DAETH cryn syndod – ac eto balchder – i'r fro pan gododd 'Fo a Fe' ar ei draed i hawlio Y Fedal Ddrama yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Gwyneb cyfarwydd i ni – ond efallai maes anghyfarwydd. Y person ifanc amryddawn yw Huw Foulkes, Tyddyn Gwndwn, Bethel.

Yn gyn-Brif Ddisgybl Ysgol Brynrcfail, mae Huw newydd orffen ei drydedd flwyddyn yn astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'n disgwyl ei ganlyniadau ac yn gobeithio dychwelyd yno ar gyfer cwrs M.A. mewn Ysgrifennu Creadigol a Sgriptio.

Cipiodd y fedal am ddrama un act 'Enaid Hoff Cytûn', a hynny ar ei gynnig cyntaf o lunio drama. Prif thema'r ddrama yw'r ddeoliaeth rhwng yr hen a'r ifanc sydd, yn y diwedd, yn arwain i debygrwydd rhyngddynt. Lleolir y ddrama mewn tafarn draddodiadol Gymreig cyn dyfodiad y tafarnau thema modern, a'i swm a'i décor. Lle i gael peint, sgwrs a dadl.

Dau brif gymeriad sydd yma. Mae'r hen ŵr wedi cael ei lethu gan euogrwydd: ef oedd yn gyrru'r modur pan laddwyd ei wraig mewn damwain. Mae'r graith wedi ei heneiddio cyn ei

amser a daw'r peint â solas ffug iddo. Ei 'obaith' yw cael marw i gladdu'r euogrwydd. Mae Huw yn cyfaddef iddo lunio rhai o stumiau, sgwrs a chryfder yr hen ŵr ar ei daid, y diweddar Jac Foulkes.

Ato i gynnal sgwrs daw llefnyn ifanc sydd, ar yr olwg gyntaf, yn ymddangos yn llywaeth. Drwy ei sgwrsio heriol mae'r ifanc yn rhyddhau yr henwr o'r beichiau mewnol sy'n ei lethu. Cawn yma ddarlun o'r newid mewn cymdeithas o'r cyfnod ble disgwyli'd i'r ifanc 'wrando' yn unig. Hwyl heddiw, yn aml, sy'n gosod yr agenda.

Mae gan y llefnyn ifanc ei 'obaith' hefyd. Dyna destun awdl mae'n ceisio ei gorffen i gyflawni ei uchelgais o gipio cadair eisteddfodol. Fel yr â'r ddrama yn ei blaen cawn wybod fod y sgwrs yn symbylu'r awdl, ac yn ennill cadair iddo. Yn anffodus erbyn hynny mae'r henwr wedi marw.

Cawsom gip o'r ddrama ar y wal fideo yn ystod y seremoni, gyda Stewart Jones a Dyfrig Evans yn chwarae'r rhannau. Cawn glywed y ddrama yn ei chyfanrwydd yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn ar Radio Cymru.

Bydd Huw, fel rhan o'r wobwr, yn cael mynychu gweithfeydd

techneg yn Nhŷ Newydd.

Mae rhai wedi gofyn a fydd ail act. Mae trydydd cymeriad – merch y dafarn – yn ymddangos, sy'n rhoi sgôp i ymalaethu. Mae'n fwriad gan Huw ddychwelyd at y ddrama hon rhyw ddiwrnod. Efallai hefyd y bydd Cwmni Theatr Fach Llangefni yn llwyfanu'r ddrama. Edrychwn ymlaen.

Maes anghyfarwydd meddais ar y cychwyn. Rydym yn hen gyfarwydd â doniau Huw yn y maes cerddorol. Daeth hynny i'r amlwg yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Ers mis Tachwedd 2006, mae Huw wedi arwain Côr Aelwyd y Waun Ddyfal, Caerdydd, sydd ag wyth deg y cant o'r aelodau yn ogleddwyr

sydd wedi symud i'r 'ddinas fawr ddrwg'. Nhw enillodd y gystadleuaeth i Gorau Pedwar Llais yn yr Urdd eleni. Y llynedd, yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn Ystrad Fflur, fe enillon nhw y wobwr gyntaf i Gorau Cerdd Dant. Bydd Huw yn brysur yn y Genedlaethol yng Nghaerdydd eleni hefyd, gan y bydd y côr yn canu yn y cystadlaethau i'r Côr Ieuencid a'r Parti Cerdd Dant. Bydd yn aelod o'r Pedwarawd hefyd.

Hoffai Huw gydnabod cefnogaeth ei deulu, ffrindiau a'i Diwtoriaid Sgriptio. Diolchwn innau iddo am ei gyfraniad, gan obeithio ei fod yn symbylu eraill i adlewyrchu y ddawn sy'n bodoli yn y rhan arbennig yma o Gymru.

RICHARD LLWYD JONES

ENAIID HOFF CYTÛN (I gyfarch Huw Foulkes)

Ger y bar mae gwewyr byd – yn brathu
a britho'i euogfyd;

Yn methu cael esmwythyd,
oer yw hynt 'r hen ŵr o hyd.

Ger y bar mor wag yw'r byd – yn gyrru
i'w gorwel ieuengfyd,
i chwilio, herio o hyd,
yn awdl o obaith gwawdlyd.

Ger y bar mewn geiriau bach – drwy'r peint
daw'r parch o'r gyfeillach,
sy'n cymell llanc ymhellach;
câi' lwybr nawr o'r clebran iach.

RICHARD LLWYD JONES

Capel Hebron

Darllenwch bortread o Gapel Hebron
gan Rol Williams ar dudalen 15.



Y gynulleidfa tu allan i Gapel Hebron, Gwaun Cwm Brwynog, nos Lun, 7 Gorffennaf, 1958 – noson cyfarfod Datgorffori'r Eglwys, gyda'r Parchedigion J. P. Davies ac Alwyn Parry ar y dde. (LLUN: Y CYMRO)

ECO'R WYDDFA

RHIF 357

GORFFENNAF 2008

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost
alwena@gwasggywnedd.com
storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

DYDD LLUN, 25 AWST

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 4 MEDI

Dyddiad Gosod

SUL 31 AWST am 5.00

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Medi	25 Awst	4 Medi	Dinorwig	Marian Jones	870 292
Hydref	22 Medi	2 Hydref	Penisarwaun	Ann Evans	872 407

RHODDION

£50: Mrs H. W. Marshallsay,
Rhyl.

£10: Elaine Williams, Llwyfor,
Llanrug; Dafydd Owen a'r
teulu, 11 Bryn Moelyn,
Llanrug; John V. Morris,
Rhianfa, Clwt-y-bont; Glyn
Richards, 5 Tai Caradog,
Deiniolen; Teulu 10 Rhes
Marian, Deiniolen; Gwion
Davies, Bryn Eithin (gynt),
Waunfawr; Gwyn Hefin ac
Ifanwy Jones, Rhandir,
Brynrefail; Malcolm ac
Yvonne Pitts, Y Gelli, Llanrug.

£5: Megan Axon, 13 Hafan
Elan, Llanrug; Eileen Jones, 3
Y Bwthyn, Deiniolen; Evelyn
Jones, 7 Rhes Las, Deiniolen;
Aeron Maldwyn Jones,
Llanwnda; Ieuan Williams,
Llain yr Ardd, Bethel; Mrs
Annie Hughes, 11 Llys y
Gwynt, Penisarwaun; A. & G.
Thomas, 5 Rock Terrace,
Llanberis; Gwen ac Oliver
Edwards, Llanberis.

Syr / Madam,

Pwysleisïaf mai nid diben y
llythyr hwn yw beirniadu gwaith
barddonol Y Dr Gwyn Thomas a
fydd yn ymddangos ar furiau
Hafod Eryri, yr adeilad newydd
ar gopa'r Wyddfa, fel y gwelwyd
ar y rhaglen deledu nos Sul, 7
Mehefin.

Yn bersonol rwyf braidd yn
siomedig na welodd swyddogion
Parc Cenedlaethol Eryri yn dda i
roi ar y muriau yn ogystal y
geiriau isod, a oedd ar y ddwy
lechfaen a fu am gyfnod ar y
copa:

Grwydryn, aros ennysd.

Ystyria ryfeddol waith Duw
a'th daith fer ar y ddaear hon.

Wanderer, rest awhile.

Think of the marvellous work
of God and of your short stay
on earth.

(Ni wyddys pwy yw'r awdur.)

Gosodwyd y llechfaen gyntaf
gyda'r negesau uchod arni mewn
pedair iaith gan Gwilym Jones ac
Owen Williams, Llanrug. Dau
berson hynod brofiadol yn y
gwaith. Yn anffodus fe faluriwyd
y llechfaen gyntaf ym 1975, ond
trwy haelioni rheolwr
Rheilffordd yr Wyddfa ar y pryd,
fe osodwyd llechfaen arall ar y

copa ym 1981, ond unwaith eto,
fe'i maluriwyd.

Rwyf wedi gohebu â Mr
Aneurin Phillips, Prif
Weithredwr y Parc i geisio cael yr
Awdurdod i osod y geiriau
uchod, un ai oddi fewn i'r adeilad
newydd neu oddi allan, ond
aflwyddiannus fu fy ymdrechion.

Gwn mai nid fi yw'r unig
berson a garai weld cynnwys y
tabledi gwreiddiol unwaith eto ar
gopa'r Wyddfa, ochr yn ochr â
gwaith y Dr Gwyn Thomas.

Yn gywir

ROL WILLIAMS
Waunfawr

2 Llys Mostyn
Trelawnyd
Ger Rhyl

Mae yn fy meddiant i ddarn o'r
Eco sy'n rhoi llun o Jennie Arfon
a'r teulu yn ymadael â stesion
Caernarfon am Awstralia bell.
Mewn rhifyn pellach o'r *Eco* mae
rhywun yn dweud mai Myfanwy
o'r Bryn ydi un ohonynt, ond
neb yn gwybod pwy yw'r un sy'n
rhoi'r anrheg iddi ar stesion
Caernarfon. Gwn i sicrhwydd mai
gwraig fusnes lwyddiannus ac yn
mynd o dan y ffugenw Llinos
Gwalia ydyw hi.

Cefais i fy magu yn ardal
Waunfawr ond fy nhad o
Lysfaen, Bac Colwyn. Pan
soniwn am Llysfaen roedd pawb
yn meddwl mai Llithfaen,
Pwllheli, a olygwn.

Boed i'r *Eco* barhau am amser
i ddod, fy unig gysylltiad ac
ardaloedd fy mebyd, gan mai
dim ond fi oedd yn cael y
Caernarfon & Denbigh allwn i
ddim ei gael ddim mwy.

Yr eiddoch yn gywir
ELIZABETH EDWARDS

Ymddiheurwn nad oedd enw
Mair Humphreys wrth yr
erthygl 'Colli a Ffeindio' yn y
rhifyn diwethaf o'r *Eco*. Carem
gywiro'r gwall. - Gol.

Gan ei fod yn derbyn llaw-
driniaeth yn Ysbyty Gwynedd,
ni fydd erthyglau 'Atgofion
Hen 'Sgotwr' na 'Dyddiadur
Evan Jones, Tŷ'r Mawn', gan
Robert Elwyn Griffiths yn
ymddangos yn y rhifyn hwn.

Ar ran tîm a darllenwyr yr
Eco, dymunwn wellhad buan i
Elwyn.

Annwyl Olygydd,

*Dau arolwg tai newydd sbon gan
Gyngor Gwynedd yn dod i'ch
ardal chi dros yr haf*

Bydd Cyngor Gwynedd, ar y
cyd ag Awdurdod Parc
Cenedlaethol Eryri, yn cynnal
dau arolwg tai arbennig yn
ystod mis Gorffennaf.

Fel rhan o'r gwaith, bydd
ymchwilyr o'r Cyngor yn
ymweld ag amrywiaeth o
drigolion ar draws y Sir, gan
ofyn cwestiynau amrywiol yn
ymwneud â'u tai. Nod yr arolwg
yw cynnig gwell dealltwriaeth
o'r ffactorau sy'n dylanwadu ag
effeithio ar y sector dai yma yng
Ngwynedd a chasglu
gwybodaeth a data allweddol a
allai fod o gymorth wrth wella
gwasanaethau crai'r Cyngor i'r
dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn
ddiwethaf, mae oddeutu 300 o
dai newydd wedi eu hadeiladu
yma yng Ngwynedd, ac mae
mwy na 1,800 o dai wedi newid
dwylo. Ein bwriad wrth gynnal
yr arolwg tai yw darganfod y
rhesymau pam fod pobl yn
symud tŷ, pam eu bod wedi
prynu tŷ newydd, pa mor bell
mae pobl yn teithio i'r gwaith, a
faint ohonynt sy'n gweithio o
adref.

Bydd canfod atebion i'r
cwestiynau hyn yn gymorth i'r
Cyngor ac Awdurdod Parc
Cenedlaethol Eryri i adnabod
effaith polisiau cynllunio, tai a
datblygu'r economi.

Bydd yr arolwg a gynhelir yn
ystod mis Gorffennaf yn casglu
gwybodaeth am ddau grŵp o
gartrefi:

1. Bydd ymchwilyr o Gyngor
Gwynedd, gyda holiaduron
pwrpasol, yn ymweld â
thrigolion sydd yn byw mewn
tai sydd wedi ei hadeiladu yn
y 12 mis diwethaf.
2. Bydd holiaduron yn cael eu
hanfon drwy'r post i'r holl
gartrefi sydd wedi newid
dwylo yn ystod y flwyddyn
ddiwethaf.

Bydd staff y Cyngor yn ymweld
â thrigolion yn eu cartrefi yn
ystod mis Gorffennaf, ac rydym
yn gobeithio y byddant yn
cymryd yr amser i'n
cynorthwyo gyda'r gwaith
pwysig hwn.

Am ragor o wybodaeth am yr
arolwg, cysylltwch ag Uned
Ymchwil a Gwybodaeth Cyngor
Gwynedd ar (01286) 679380 neu
anfonwch e-bost i
ymchwil@gwynedd.gov.uk
Yn gywir,

Tim Uned Ymchwil a
Gwybodaeth,
Cyngor Gwynedd

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Frondeg
Gallt-y-Foel
Deiniolen LL55 3EF

Annwyl Olygydd

Taith Gerdded Fawr Rufeinig
Ar 18-20 Gorffennaf eleni, bydd digwyddiad go arbennig yn denu sylw yma yng ngogledd Cymru. Byddaf yn cerdded hyd y Ffordd Rufeinig rhwng Caernarfon a Chaer i hel arian at y BHF a'r Ambiwylans Awyr. Dim byd allan o'r cyffredin fan hyn falle, mae pobl yn cerdded llwybrau hir bob dydd. Ond, ar ôl ystyried i mi gael trawiad ar y galon bum mlynedd yn ôl (yn 40 oed) a'r newyddion erchyll mai cyn lleied â chwe wythnos oedd gennyf i fyw, mae'r daith yn un nodweddiadol iawn.

Llawer mwy nodweddiadol yw y byddaf, ar adegau yn ystod y daith, yn cael cwmni sawl claf arall sydd wedi cael profiadau tebyg, yn arbennig (os aiff popeth i gynllun) y criw fydd yn ymuno â mi i gerdded yn fuddugoliaethus drwy safle giatau y gaer Rufeinig yng Nghaer ar y prynhawn olaf (Veni, Vidi, Vici, efallai).

Bydd y daith yn un o 75 milltir ar hyd cwrs yr hen ffordd Rufeinig sydd wedi dod i'r golwl oherwydd gwaith ymchwil, yn bennaf gan Archaeolegwyr o Wynedd, Powys a Chlwyd, a thipyn o waith ymchwil a ffotograffiaeth o'r awyr gen innau. Mae'n bosib mai fi fydd y cyntaf i gerdded cwrs yr hen ffordd yma ers 1600 o flynyddoedd.

Rwyf yn trefnu'r ymgyrch ar y cyd â Calon Lân (gwasanaeth adfer y galon y Bwrdd Iechyd lleol). Mae'r ffaith fy mod i a sawl un arall yn gallu gwneud y fath daith yn deyrnged i'r meddygon sydd yn achub bywydau pobl fel fi bob dydd. Ar wahân i'r ymgyrch i hel arian i'r ddau elusen uchod, y bwriad yw tynnu sylw ac ymwybyddiaeth i'r ymgyrchion i gael pobl i gerdded er lles eu iechyd.

Gyda chymaint o sylw i'r ymgyrch yn y cyfryngau, bydd y daith yn un 'weledol' iawn. Rhaid nodi cyfraniad Grŵp Papurau Newydd y Trinity Mirror, sydd yn berchen ar sawl papur newydd ar hyd arfordir gogledd Cymru, yn cynnwys y *Caernarfon & Denbigh*, y *Bangor and Anglesey*, y *Daily Post* a'r *Chester Chronicle*. Bydd y papurau hyn yn cyhoeddi nifer o erthyglau am yr ymgyrch yn yr wythnosau i ddod, yn ogystal â chystadleuaeth yn gysylltiedig â'r daith gerdded.

Mae'r Abbey National am gyfrannu swm caredig o arian, hynny yw os gallaf godi swm tebyg fy hun. Hefyd mae sawl cynllun arall ar y gweill i godi rhagor o arian, yn cynnwys

ymgyrch gan sawl ysgol ar Ynys Môn sydd am hel arian trwy gynnal diwrnod di-wisg ysgol. Credaf bod cynlluniau tebyg ar y gweill yn Ysgol Brynrefail hefyd.

Ar hyn o bryd rydym hefyd yn brysur yn trefnu Noson o Adloniant ym mis Medi mewn ysgol Uwchradd leol ar gyfer cyflwyno'r sieciau i'r elusennau. Cewch wybod y manylion yn agosach i'r amser. Bydd y cyfryngau yn cadw llygad ar hyd i gyd, wrth gwers.

Mae'r BHF a'r Ambiwylans Awyr yn elusennau sydd ar fin cyrraedd cyfnodau pwysig iawn yn eu hanes. Mae'r BHF yn gobeithio gallu prynu defibillators i'w defnyddio yn y gymuned ac mae tipyn o sylw wedi bod yn ddiweddar i ymgyrch yr Ambiwylans Awyr i brynu offerynnau newydd hefyd.

Ac felly, dyma fi gyda fy nhap yn fy llaw, yn gofyn yn garedig a oes modd i chi, ddarllenwyr yr *Eco*, gysidro cyfrannu at yr achos gwerthfawr hwn. Cysylltwch â mi i wneud cyfraniad, neu mae modd i chi wneud cyfraniad yn Siop Fferm Fêl yr Wyddfa (siop Deryl) yn Llanberis. Hefyd, os hoffai unrhyw fusnes lleol gyfrannu yna dewch i gysylltiad - buaswn hyd yn oed yn cysidro gwisgo crys-T ar adegau yn ystod y daith gyda logo unrhyw fusnes fase'n cyfrannu.

Yn olaf, mae cyfleoedd i ymuno â mi am gyfnodau yn ystod y daith, hynny ydi os gallwch gerdded ar gyflymder o 3 milltir yr awr, ac mae Amserlen o'r daith ar gael. Cysylltwch am gopi.

Diolchaf ymlaen llaw am unrhyw gyfraniad

GARETH ROBERTS

Annwyl Gyfeillion

Ysgrifennaf atoch yn gofyn am eich cefnogaeth yn fy ymgyrch i sicrhau statws cyd-swyddogol i'r iaith Gymraeg yn Senedd Ewrop.

Rwyf wedi bod yn ymgyrchu ers blyneddau i gael cydnabyddiaeth i'n dwy iaith yn Ewrop, fel sydd gan y gwledydd eraill. Rwy'n falch iawn bod llywodraeth 'Cymru'n Un' wedi ymrwmo i hyn.

Mae gan bobl yng Ngwlad y Basg, Catalunya a Galisia yr hawl i gyfathrebu â sefydliadau Ewropeaidd yn eu mamiaith. Mae llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd gyda'r sefydliadau Ewropeaidd i gael cytundeb tebyg. Mae angen sicrhau bod y corff sy'n penderfynu ar reolau'r Senedd (sef y Llywydd ac arweinwyr y grwpiau gwleidyddol) yn ymwybodol o'r

galw yng Nghymru i allu cyfathrebu â Senedd Ewrop yn y Gymraeg.

Mae pwysigrwydd amrywiaeth iaith a diwylliant yn cael eu cydnabod yn fwyfwy gan yr Undeb Ewropeaidd, ac eleni, yn ystod Blwyddyn Ewrop o Ddeialog Rhyng-Ddiwyll-iannol, mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael cydnabyddiaeth haeddiannol. Nid mater o egwyddor yn unig yw hyn, byddai'n creu swyddi a hyrwyddo'r economi gan y byddai'r diwydiant cyfieithu yn cael ei leoli yng Nghymru. Byddai'n codi proffil Cymru yn Ewrop hefyd.

Felly, ysgrifennaf atoch i ofyn i chi gefnogi'r ymgyrch drwy ysgrifennu at Lywydd Senedd Ewrop, Hans-Gert Poettering, yn datgan eich cefnogaeth i gael statws cyd-swyddogol i'r Gymraeg yn y Senedd ac y buasech yn cyfathrebu â'r Senedd a'r sefydliadau eraill yn y Gymraeg

pe bai hynny'n bosibl.

Am fwy o wybodaeth ynghyd â'r manylion ymarferol ewch i fy ngwefan: www.jillevans.net, Buaswn yn ddiolchgar pe byddech yn anfon copi o'ch llythyr ata i hefyd.

Diolch yn fawr

JILL EVANS ASE

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warant 3420271

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren



GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

**Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch
ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333**

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Yma a Thraw, Taro ar Hyn ac Arall a Chofnodi Ffeithiau

Wir yr i chwi, yn ystod y blynyddoedd 2005-2006, a hynny drwy gydweithrediad parod a chaniatâd caredig Mr. D. Roberts, Glasgoed, sydd rhwng Penisarwaun a Chrawiau, buom yn y dirgel wrthi'n cynnal Archwiliad ar ran y BTO o'r adar prin rheiny, gan gynnwys y fwyaf o'r *cnocellod*, sy'n trigo yn y coedwigoedd ar dir y fferm. Na! nid ydyw'r *Gnocell Werdd* ar gael yma! Ond nid felly'r *Gnocell Fraith Leiaf*, sydd fel slywen o lithrig ymhlith brigau'r coed. Anodd andros ydyw ei lleoli! Yr hyn sy'n ei bradychu ydyw'r *cnocio!* Profiad amheuthun ydyw archwilio am oriau gynefinoedd adar, heb eu gweld, ac eto'n medru eu hadnabod oddi wrth y synau a gynhyrchent! Profiad o fyw ymhlith y byw fel petae!

Wyddoch chwi, ym myd Natur, y mae'n bosib byw hefo'r briwsion ymhlith y meirwon! Dyna pam y mynnaf ddatgan bod Archwiliadau tra gwahanol i'r uchod, sy'n gysylltiedig â Glasgoed, wedi eu cwblhau, a

hynny yn ystod y saith - wyth mlynedd a fu. Merch Mr. a Mrs D. Roberts ydyw Linda, fy nghymar, ac y mae hi hefyd wedi bod yn rhan o'r Archwiliadau Blynyddol a wneir, sef teithiau er mwyn canfod creaduriaid sy'n feirwon ar lonydd.

Yn flynyddol, eir ati ddwywaith, a hyn i gyd ar wahanol ddyddiau a misoedd, i gribino'r un hen lôn, ia honno sydd rhwng Llanrug, Llanberis, Nant Peris, Capel Curig, Betws y Coed, a'r A5, ac yn dal ati i dyfu hyd nes cyrraedd pentref Glyndyfrdwy, (h.y. gorffennir y teithiau wrth Dŷ'r Dyn Glöynod Byw). Linda, ac nid fi sy' yng ngofal llywio'r modur. Ydyw i ddim yn ddiogel hefo berfa, heb sôn am ddreifio car! Ista'n aflonydd, a nodi ar daflen fydda i! Gwaith hawdd dros ben! Gan Linda y mae'r gwaith anodd o ddreifio ar gyflymdra nad ydyw o berygl i fodurwyr eraill. Hi hefyd, fy ngeneth i, sy'n gofalu amdanaf, o ran diogelwch, h.y. ble i aros, er mwyn gwneud yn siŵr, welwch chwi, mai *gwiwer* ac nid *eliffant* a gofnodir. Nodir lleoliad, yr union amser, rhif o ran milltir

ar y cloc, a beth welwyd.

Llynedd, ar y daith gyntaf, trawyd ar ddau gorff - ie *draenog marw*, a *gwiwer lwyd*, a hynny rhwng 14.35 a 14.36. Ymhen deufis ar yr un daith, a'r un perwyl, nid dau gorff a ganfyddwyd, ond deuddeg. Dyma beth a drawyd arnynt:

Cwningod (3)

Draenogod (4) Oedolion, ac yn eu plith un ifanc.

Ffwlbartod (1) Oedolyn.

Gwiwerod Llwyd (3)

Ysgyfarnogod (1)

Y mae'n amlwg ddigon mai marwolaeth nifer o greaduriaid ydy'r lôn, ond nid marwolaeth unrhyw lôn fydd y creaduriaid sy'n ei chroesi.

Yr argol! Wedi dweud hynna i gyd, cymerwch gysur, fy mhobol i, oherwydd ar yr un daith yn gymwys gwelwyd rhywbeth cwbl anghyffredin o unigryw i'n cwr ni o'r byd - ia, *bisonau* - un ar bymtheg ohonynt taw â sôn, yn pori ar dir Plas Rhug, ger Corwen. Ac mi roeddynt oll yn fyw!

Ôl-nodyn, (hefo gwên)

Diolch i Linda am ofalu, a rhoi trefn arna i, ac am fy ysgogi i gofnodi'r uchod. Hebdi ni fyddai'r holl deithiau a gwblhawyd yn bosibl! Wel - mi fyddai'n bosibl, (ond nid hefo berfa!), oherwydd hefo Linda wrth fy ochor yn y modur, y mae fy myd wedi ei ddal yn ei gyfanrwydd.

UN FUNUD FACH

KHYRA

Stori Khyra Ishaq yw un o straeon mwyaf trist y flwyddyn hon, ac unrhyw flwyddyn arall o ran hynny. Ganol mis Mai y clywsom am y ferch saith mlwydd oed a fu farw o newyn yn ei chartref yn Handsworth, Birmingham. Roedd pum plentyn arall yn dioddef o eisiau bwyd yn yr un tŷ. Mae ei mam a'i llys-dad wedi eu cyhuddo o esgeuluso plentyn.

Anaml iawn y clywn am unrhyw beth tebyg i hyn, diolch am hynny. Ond mae diwedd trasig bywyd byr Khyra yn ein hatgoffa o'r ffaith fod llawer o blant gwledydd Prydain yn byw mewn caledi mawr. Mae amgylchiadau'r plant hyn yn amrywiol, a thlodi a digartrefedd a chwalfa deuluol a chamdriniaeth yn gallu cyfrannu at wneud bywyd yn boenus ac anodd. Diolchwn am y mudiadau a'r asiantaethau sy'n gweithio ym maes gwarchod plant, a gweddiwn dros eu gweithwyr sy'n ceisio amddiffyn plant rhag peryglon o bob math.

Ac o gofio hynny, gallwn ddiolch am y gofal mawr a ddangosir am eu plant gan fwyafrif llethol rhieni ein hardaloedd ni. Gwneud cam â'u plant fyddai'r peth olaf y byddent yn ei ddymuno. Mae plant yn cael y gorau y gall eu rhieni ei roi iddynt. Mae hynny'n wir yn faterol, o ran bwyd a dillad a theganau a chyfrifiaduron a gwyliu. Ac mae'n wir hefyd o ran yr holl gyfleoedd a gaiff plant ym myd chwaraeon a cherddoriaeth a chlybiau o bob math. Mae rhieni'n fodlon rhoi eu hamser a'u hegni a'u harian er sicrhau'r manteision mwyaf i'w plant, a pheth digon cyffredin yw clywed rhieni yn dweud eu bod fel gwasanaeth taci yn cludo eu plant o le i le.

Fyddai'r un rhiant da yn fwriadol yn gwneud cam â'i blentyn. Ond mae'n bosibl gwneud hynny'n anfwriadol, ac yn arbennig felly o ran lles ysbrydol plentyn. Rwyf wedi gwneud hynny fy hunan trwy beidio gweddio fel y dylwn dros yr hogia, a thrwy fethu bod yr esiampl orau iddynt nhw o ran dilyn Iesu Grist. Dyna pam bod peth mor syml ag Ysgol Sul mor bwysig, gan ei bod yn ein helpu fel rhieni i feithrin ein plant ym mhethau'r Ffydd. Nid pawb sy'n cytuno â mi, wrth gwrs, ond yr wyf fi o'r farn bod modd i rieni wneud cam â'u plant wrth beidio rhoi cyfle iddyn nhw ddod yn gyson i'r Ysgol Sul i gael eu dysgu am y Ffydd ac i fod yn rhan o'r gymdeithas Gristnogol sydd ynddi. Mae plant yn cael cam os na chawn nhw glywed am yr Iesu. Ond ar wahân i hynny, mae nhw ar eu colled o beidio dysgu am y Beibl a'i gynnwys. Mae ôl y Ffydd Gristnogol ar gymaint o'n llenyddiaeth a'n cerddoriaeth a'n hiaith. Mae amddifadu'n plant o'r cyfle i ddod yn gyfarwydd â chynnwys y Beibl yn golygu na fyddant yn gallu deall na gwerthfawrogi'r cyfeiriadau ato sy'n britho ein nofelau a'n cerddi a'n drama. Mynnwn na chaiff ein plant na'n hwyron gam.

JOHN PRITCHARD



Ar Ben Arall y Lein

Pwy sydd eisiau 'sgota a'r tywydd mor braf, llwybrau'r glannau wedi eu torri yn daclus, pob man yn edrych yn werth chweil ond mae un peth ar goll - dŵr. Dim glaw ers tua saith wythnos! Yr harbwr ar Lyn Cwellyn wedi sychu i fyny, amhosib cael y cychod allan a rhai mewn anobaith llwyr. Peth ofnadwy ydi 'sgota, yndê!

Er hyn i gyd mae'n rhaid cadw pethau i redeg. Mae'r criw yn y ddeorfa yn brysur yn gwarchod nifer fawr o frithyll yr Enfys. Mae'n amhosib eu symud am Dywarchen oherwydd tymheredd y dŵr, felly mae costau bwydo yn codi. Does dim cyfle o gwbl i ddianc rhag crafanc chwyddiant, dim hyd yn oed yn y ddeorfa. Ond mae un peth y sicr, pan ddaw y glaw mi fydd stoc arbennig ar ei ffordd i Lyn y Dywarchen.

Rydym wedi cynnal cyfarfod-ydd gydag adran bysgodfeydd Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae pethau yn edrych ar i fyny. Mae posibilrwydd y bydd cynllun magu gleisiad yn cael ei ail ddechrau ar ddiwedd y tymor presennol ac mae diddordeb aruthrol yn y cynllun. Bydd croeso i ysgolion y fro gymryd rhan a dod i'r ddeorfa i weld be sy'n mynd ymlaen. Rwyf ar ddeall fod cryn diddordeb gan ysgolion ardaloedd Corwen a Dolgellau mewn cynlluniau o'r fath sy'n cael eu cynnal yn neorfeydd yr Asiantaeth ym Maerdy a Dolgellau. Ein deorfa ni

yma yn Carwia yw'r unig un yng ngogledd Cymru sy'n cael ei rhedeg a'i chynnal gan Gymdeithas leol.

Cefais sgwrs ddifyr iawn y diwrnod o'r blaen gyda thri o Lithuania oedd wedi llogi dwy o gychod y clwb i 'sgota Padarn. Dyma eu hail ymweliad ac maent yn cael hwyl dda arni hefyd. Roeddynt wedi cael torgoch - rhwbio halen i'r briw braidd a minnau wedi bod wrthi'n o galed eleni a heb weld yr un!

Roedd y cyfeillion yma wedi llogi'r cychod drwy'r Cwellyn Arms, Rhyd Ddu. Mae Graham, y perchennog, a'i deulu yn gwneud gwaith ardderchog yn gwerthu'r Gymdeithas. Mae Y Cwellyn yn adnabyddus ar hyd Ewrop, a nawr Gogledd America, gyda rhai eisiau pysgota a lle da i aros, gyda thanllwyth o dân coed. Byddaf i fy hun yn cael llawer o alwadau ac yn eu trosglwyddo i gyd i Rhyd Ddu am eu tocynnau. Be sy'n ddiddorol yw y nifer sy'n aros un ai yn y dafarn neu yn y maes gwersylla sydd ar lan Llyn Cwellyn.

Mae'n gryn ddirgelwch i mi pam nad oes dim un o'r llu gwestai ac ati sydd yn Nyffryn Peris yn ymafael yn y cyfle. Mae cryn fudd i'w gael, wyddoch chi, gyda'r hen 'sgota 'ma!

Newydd wrando ar ragolygon y tywydd am yfory - gaddo twmpath o law felly, hwyl am y tro - rhaid cael y gêr yn barod.

HUW PRICE HUGHES



Dewch i Gae'r Gors, cartref plentynod yr awdures Kate Roberts. Mae Cae'r Gors yn gyrchfan hudol i bob oed, gydag ystod o weithgareddau'n cael eu cynnal drwy'r flwyddyn. Os ydych yn dymuno trefnu ymweliad grŵp, gallwn ei deilwra'n arbennig trwy drefniant ymlaen llaw.

Prisiau

Oedolion - £3.80
Pensiynwyr/Plant - £3.20
Tocyn Teulu - £12.00
Gostyngiad i grwpiau

Oriau Agor

Llun - Ar gau
Mawrth i Gwener - 10 i 4
Sadwrn a Sul - 1 i 4

Cae'r Gors
Canolfan Dreftadaeth
Kate Roberts,
Rhosgadfan, Caernarfon,
Gwynedd. LL54 7EY

www.caergors.org

post@caergors.org

Ffôn: (01286) 831 715

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir
Dinorwig. Ffôn: 870292

YN YR YSBYTY. Mae'n ddrwg gennym ddeall fod Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian gynt, ac sydd yn awr yn cartrefu ym Mhlas Garnedd, Llanberis, yn Ysbyty Gwynedd. Hyderwn y bydd yn gwella yn lled fuan ac y bydd hefo'i ffrindiau yn Llanberis yn cartrefu unwaith eto. Brysiwch wella, Mrs Hughes.

PEN-BLWYDD HAPUS.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Megan Morris, Minffordd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 93 mlwydd oed ddechrau'r mis.

Hefyd Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian gynt ar ddathlu ei phen-blwydd yn 94 ar 15 Mehefin.

A chyn y daw'r Eco nesaf o'r wasg fe fydd Mr Andrew Griffith, Tan y Bwlch, wedi cael ei ben-blwydd yn 92.

Pen-blwydd Hapus iawn i'r tri ohonoch a gobeithio am iechyd a phob bendith i'r blynyddoedd a ddel.

DIWEDD TYMOR. Wel, y mae diwedd tymor y colegau a'r ysgol yn y golwg yn awr. Carem fel ardal ddymunio yn dda i bawb oedd yn eistedd yr arholiadau a gobeithio am ganlyniadau da i chwi i gyd ac y cewch fynd ymlaen â'ch addysg fel ag yr oeddych yn edrych ymlaen i'w wneud.

Gwyliau hapus i chwi i gyd a gobeithio am dywydd braf a dipyn o haul.

Pob lwc i bawb.

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

Chwarel Dinorwig 2008

Mae'r chwarel bellach wedi cau
A neb ar ôl ond un neu ddau
Sy'n cofio trin y lechen las
Dan drem rhyw stiward gosod cas.

Roedd ynddi grefft 'cymdeithas fyw'
Pan oedd dynion yn parchu Duw;
Roedd ynddi undeb, hefyd 'werth,
A brechdan jam i ddyn gael nerth.

Mae tinc y cynion yn y co
A hiraeth tawel drwy y fro,
Heblaw am rai heb unrhyw arf,
Dim ond rhyw locsyn fel bwh gafri!

Dônt yma'n ddega' i 'Rallt Ddu
I ddringo ac i chwarae'n hy,
Yn siarad iaith o glebar brain,
Sy'n eco dros y Llwybr Main.

Beth ddwedai 'nhaid, beth ddwedai
'nhad
Am fywyd 'newydd' yng nghefn

gwlad?
Rhyw ffordd o chwarae i gael byw
Heb barchu dim, heb sôn am Dduw.

JOHN V. MORRIS
Rhianfa, Clwt-y-bont

Colofn y Plant


Clwtyn Criw Triw

Whiwdirwpidirw! Dyma fi! Smonach Bach yn fy ôl! Ys gwn i ble mae Smonach Mawr erbyn hyn? A be' mae o wedi bod yn ei 'neud hefo chi yn *Clwtyn Criw Triw* pan oeddwn i'n crwydro'r byd yn grwn? Dim rhyw lawer, siŵr braidd gen i!

Ble roeddwn i? Ymhell-bell i ffwrdd, a dydw i ddim wedi bod adref ers amser hir iawn! Mae'r gwellt wedi tyfu dros ffenestri'r caws llyffant ble rydw i'n byw, a dail wedi llenwi'r landeri. Mae

chwyn, a dim byd ond chwyn, yn tyfu ymhob man yn yr ardd! Dim moron! Dim hyd yn oed tatws, a dim grefi yn tyfu yn unlle!

Whiwdiprwdwbidiri mae'n braf, yntyndy, cael mynd ar wyliau! Nid pawb sy'n cael gwyliau! Smonach Mawr? Dydy o byth yn cael gwyliau. Druan bach, yntê! Wh! Hw! Ond domino'n fflat ar ben bwrdd! Llai o wneud sŵn crio! Hwyl sydd isio! Llauer iawn o hwyl!



Sawl Seren?

Faint

allwch chi eu cyfrif?

(Y mae'r ateb cywir ar waelod y dudalen.)

Ar ei Ben i Lawr?

Pa rif ydy 9 ar ei ben i lawr?

(Y mae'r ateb cywir ar waelod y dudalen.)

9

Enwau Pentrefi ECO'R WYDDFA wedi disgyn i'r peiriant golchi dillad budron, ar llythrennau wedi eu cymysgu'n lân!

NS IE RN LL LOI YOI THR

ELETHB


YOLGWMC

ENLOIEDNI

SIREBNALL

REIPNATNS

AWRAUFWN



Ewch ati i aildrefnu'r llythrennau, a ffurfio enwau lleoedd.

(Y mae'r ateb cywir ar waelod y dudalen.)

Ydych chi'n rhai da am glandro symiau?

Pa un sy'n anghywir? Cofiwch gyfrif yn ofalus, a mwy nag unwaith!

A/	B/	C/	CH/
62	61	42	25
+18	+35	+31	+41
(80)	(98)	(73)	(66)

(Y mae'r ateb cywir ar waelod y dudalen.)

Gardd Smonach Mawr



Faint o flodau sy'n tyfu yno? Beth am eu rhifo'n ofalus?

(Y mae'r ateb cywir ar waelod y dudalen.)

Sawl gwaith y mae'r rhif naw (9) yn ymddangos ar y llawr oddi tan grysau Smonach Bach yn y cwpwrdd dillad.



6 26
36 17 82
9 10 135 456 502 7124
181876 35,3723072

(Y mae'r ateb cywir ar waelod y dudalen.)

Ydych chi'n rhai da am glandro symiau?
B/ oherwydd mai 96 ydyw 61 + 35, ac nid 98.
Gardd Smonach Mawr
4? Iai pedwar bloddyn sy'n tyfu yng ngardd Smonach Mawr.
Sawl gwaith y mae'r rhif naw (9) yn ymddangos ar y llawr oddi tan y grisau bach yn y cwpwrdd dillad.
Un wait. Mae'r rhif 9 rhwng y rhifau 82 a 10.

MAE ENWAU PENTREFI ECO'R WYDDFA wedi disgyn i'r peiriant golchi dillad budron, ar llythrennau wedi eu cymysgu'n lân!
ELETHB - BETHEL
YOLGWMC - CWM Y GLO
ENLOIEDNI - DEINIOLEN
SIREBNALL - LLANBERIS
REIPNATNS - NANT PERIS
AWRAUFWN - WAUNFAWR

Ar ei ben i lawr:

9 ar ei ben i lawr ydy 6.

Sawl Seren? Naw! Iai 9!

YR ATBION

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Cystadleuaeth mis Mai

Yr Ateb: Golygfa leol o'r llwybr cyhoeddus sydd heb fod ymhell o'r Amgueddfa Lechi, ger pentref Llanberis. Ffotograff a dynnwyd mis Mai 2008 o'r rhes coed a geir yn tyfu ar lan llyn Padarn, lle neilltuol o brydferth a dylem yn wir fod yn dra-diogelgar am gael byw ynghanol y fath harddwch.
Ni wnaeth neb gystadlu.

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd Ffôn: (872133)



CYMORTH CRISTNOGOL. Diolch yn fawr i'r bobl a fu o amgylch y pentref yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Hebddynt hwy, ni fyddai modd i ni gefnogi'r gwaith hwn bob blwyddyn. Casglwyd £800, sydd yn swm hynod o dda.

DIOLCH. Hoffai Glyn Richards, 5 Tai Caradog, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau a dymuniadau

da a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed.

BELTIAU GLAS cyntaf i Glwb Bocsio Cic Dinorwig. Unwaith eto, bu'r clwb yn llwyddiannus gyda Mandy, David a Christopher Williams a Glesni Angharad Jones yn graddio i'w belt glas cyntaf. Hefyd cafodd Llŷr Jones, Karina Collins a Leah Cheeseman eu beltiau gwyn cyntaf.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd



Y Cyngorydd Len Jones yn cyflwyno sic o £1,000 ar ran Cwmni Adfywio Deiniolen Cyf i Glwb Pêl-droed Ieuenctid Deiniolen. Efo fo mae un o'r timau dan 11 oed gyda'u hyfforddwr, Kevin Jones; Cadeirydd y Clwb, Dewi Rees Williams, a'r Trysorydd, Yvonne Regan. Bydd yr arian yn helpu tuag at y costau ac i sicrhau dyfodol y clwb i'r plant.

oddi wrth pawb yn y cylch. Yr ydym yn cymryd aelodau newydd bob wythnos. Os oes gennych ddiddordeb, galwch yn yr hen ysgol yn Ninorwig neu cysylltwch â John neu Gerallt Jones ar (01286) 871694. Mae'r dosbarthiadau ar nos Fawrth, rhwng 6-8, a nos Wener, rhwng 7-9.

DYMUNA Mrs Eileen Jones, 3 Y Bwthyn, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau gorau a dderbyniwyd ganddi ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Bethan a Macari ar enedigaeth mab yn ddiweddar, brawd bach newydd i Elli. Dymuniadau gorau iddynt fel teulu.

MABOLGAMPAU'R URDD.

Llongyfarchiadau i bawb o aelodau'r Urdd, Ysgol Gwaun Gynfi, a gymerodd ran yn y mabolgampau yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

GLAN LLYN. Ymwelodd criw o aelodau'r Urdd â gweryll Glan Llyn yn ddiweddar a chael penwythnos i'w chofio. Hoffai'r plant ddiolch i Mr Ab Elwyn am y cyfle i aros yno ac am yr hwyl a gafwyd.

LLONGYFARCHIADAU i dair o genod y pentref, Iola, Lois a Catrin Llewelyn, a enillodd gynghair pêl-droed genethod o dan 11 gyda Llanrug yn ddiweddar.

DYMUNIADAU GORAU i bawb a fu'n dioddef salwch yn ddiweddar a dymunwn wellhad buan i bawb.

Cofio Nhad (Huw Morris)

Mae fy nhad yn cysgu'n dawel
Gyda chwyth y dwyfol awel,
A phan glywn y gloch o'r tŵr
Cofiwn wyneb annwyl ŵr.

Cofiwn am ei ddwylio cryfion
Yn trin y morthwyl trwm a'r cynion,
Agor holltau yn y graig
Er mwyn bwydo'i blant a'i wraig.

Garddwrn cry i ddal ei bladur,
Tymer wyllt, ond ffeind ei natur,
Cneifio hwrdd neu farcio oen,
Nawr mae'n cysgu yn ddi-boen.

Llwch y llechi aeth i'w sgyfaint
A bu'n diodde yn ei henaint,
Brefu amdano mae ei braidd,
Cristion cadarn yn y gwraidd.

A phan fydd yr haul yn machlud
A'r hen fyd sydd mor grintachlyd,
Bydd cysgodion hir yr hwyr
Yn ein llethu ni yn llwyr.

JOHN V. MORRIS
Rhianfa, Clwt-y-bont

DYMUNAF ddiolch yn fawr iawn i drigolion bro'r Eco am yr holl alwadau ffôn a chardiau yn fy llongyfarch ar gael fy ethol ar ward Llanwnda i Gyngor Gwynedd. Aeron Maldwyn Jones, Llanwnda MAE ALAN PARRY, 19 Pentre Helen, wedi ei dderbyn yn aelod o Ymgynghorwyr Comisiwn Tenantiaid Gwynedd dros Arfon, Meirionnydd a Dwyfor. Ei rif ffôn ydi 07773447223 ac e.bost Gwynedd@Yahoo.com. Mae Alan hefyd ar Radio Ysbyty Gwynedd.



Plant Ysgol Sul Unedig Deiniolen yng Ngymanfa Ysgolion Sul Cylch Cwm y Glo, 18 o Fai, 2008. Roedd Ysgol Sul Deiniolen yn actio a chanu stori am Sadrach, Mesach ac Abednego, a gafodd eu taflu i'r ffwrnais boeth gan y brenin am beidio addoli'r ddelw, ond am eu bod yn credu yn Nuw ni chawsant eu llosgi.

Gorsaf Betrol Beran Deiniolen.



Golchi a ll'nau Ceir

Ar agor 7yb - 9yh bob diwrnod
Petrol, Diesel, Nwy Calor a Glo
Loteri, Papurau Newydd
Off Licence, Bake'n Bite
Brechdanau a Dioddydd Poeth

Costcutter



01286 871521

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726



Iwan Jones (Llanrug), Guto Pierce (Bethel), Rhun Meirion (Llanrug), Ifan Huw (Bethel) a Rhodri Jones (Bethel).

Pump o fechgyn lleol a oedd yn rhan o garfan Eryri, Undeb Rygbi Ysgolion Cynradd, a chwaraeodd yn erbyn Lluchwr yn Nyfnant, Abertawe, yn ddiweddar yn gêm olaf cystadleuaeth Powlen D.C. Thomas, Western Mail. Da iawn chi, hogia. Daliwch ati!

DIOLCH. Dymuna Dafydd Parry, Hafod Elen, ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed.

DIOLCH. Dymuna Aeron Maldwyn Jones ddiolch yn fawr iawn i drigolion bro'r Eco am yr holl alwadau ffôn a chardiau a dderbyniodd yn ei longyfarch ar gael ei ethol i Gyngor Gwynedd i gynrychioli ward Llanwnda.

DIOLCH. Dymuna Huw Alun Foulkes, Tyddyn Gwndwn, ddiolch o waelod calon i bawb am y llu cardiau a chyfarfodion a dderbyniodd yn dilyn ennill y Fedal Ddrama yn Eisteddfod yr Urdd Sir Conwy 2008.

DIOLCH. Dymuna Ieuan, Llain yr Ardd, ddiolch o galon i'w deulu, perthnasau, ffrindiau, cymdogion a chydabod am eu dymuniadau da mewn cardiau, llythyrau, galwadau ffôn ac ymweliadau yn dilyn ei gyfnodau diweddar yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Diolch yn fawr iawn i chwi oll. Diolchiadau arbennig i feddygon a holl staff yr ysbyty ac i feddygon a staff meddygfa Waunfawr/ Llanrug.

NOSON JIM. Nos Wener, 13 Mehefin, cynhaliwyd noson arbennig iawn yn y Bedol i ddymuno yn dda i Jim Ostler cyn mynd am driniaeth amgen at ei afiechyd yng Nghaerwrangan.

Cafwyd adloniant o'r safon uchaf gan dri band lleol, Mudflaps, Derwyddon Dr Gonzo a Y Bandana, y tri grŵp wedi rhoi eu gwasanaeth yn ddi-dâl. Casglwyd £2,700 ar y noson, y cwbl o'r elw yn mynd at gostau triniaeth Jim.

DIOLCH. Dymuna Jim a Wendy Ostler a'r genod ddiolch o galon am yr holl ddymuniadau da ac am haelioni cyfeillion a chymdogion wrth i Jim gychwyn ar ei driniaeth. Diolch hefyd i bawb am eu cyfraniad i'r noson yn y Bedol.

MERCHED Y WAWR.

Mwynhaodd nifer dda o aelodau'r gangen noson ddiffr ar eu trip diwedd tymor yn ddiweddar drwy ymweld ag Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy. Cawsant weld ffilm ddiffr o hanes bywyd y cawr o Gymro a chrwydro o gwmpas y cartref lle'i magwyd. Ymlaen wedyn a chael bwyd gwerth chweil yng Ngwesty'r Afr yng Nglandwyfach yng nghwmni Arwyn a Hilary Humphreys.

Croesawodd Margaret Druce, y Llywydd, bawb i'r noson a

llongyfarchodd blant a phobl ifanc y pentre ar gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau arbennig i Huw Alun Foulkes ar ennill y Fedal Ddrama ac i Siôn Elwyn am ddod yn ail am Gyfansoddi ac am gael y drydedd wobwr gyda Lois Eifion ar y Ddeuawd Bianco.

Llongyfarchiadau i Siân Davies ar ei llwyddiant efo'r siaced denim a'r gwaith cyfrifiadu, a fydd yn cael ei arddangos yn y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd. Croeso 'nôl i Nora a Joyce ar ôl salwch a dymuniadau gorau i Gwyneth Jones sydd yn mynd am driniaeth yn fuan.

Mae nifer o blant ein haelodau yn priodi yr haf yma a dymunwn yn dda iddynt: Huw Llywelyn, mab Alys; Rhodri, mab Eryl, a Gwennan, merch Delyth. Dymuniadau gorau'r gangen i bob un ohonyn nhw.

Diolchodd Margaret Druce i'r pwyllgor a'r aelodau i gyd am eu cefnogaeth ar hyd y flwyddyn a diolch arbennig i Joyce Roberts, yr Ysgrifyddes ac Edith Jones, y Drysoryddes, am eu gwaith caled a'u cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Fe sicrhodd y ddwy bod y trefniadau yn drylwyr bob amser. Hoffent hwy ar ran y pwyllgor yn eu tro ddiolch i Margaret am gael cynnal ein cyfarfodydd yn Arfryn ac am y baned a'r gacen flasus ar ddiwedd bob cyfarfod. Dymunwn yn dda i swyddogion y flwyddyn nesaf ac edrychwn ymlaen am ddechrau tymor newydd ym mis Medi.

CLWB 200. Enillwyr mis Ionawr: £40: (151) Gwyneth Hughes, 36 Bro Rhos; £20: (34) Helen Williams, Ty'n Gadlas, Pentir; £10: (114) Eleri Warrington, Wern Bach.

Enillwyr Chwefror: £40: (169) John Maldwyn, 13 Tan y Buarth; £20: (165) Iola Jones, 22 Y Ddôl; £10: (167) Idris Rees, 6 Y Rhos.

Enillwyr Mawrth: £40: (10) Wendy Grail, 10 Y Ddôl; £20: (150) Kitty Hughes, Coed Belyn Lodge; £10: (90) Dilys Perrez, 11 Tan y Cae.

Enillwyr Ebrill: £40: (142) Eryl Roberts, Bryn Rhedyn; £20: (134) Clare Jones, Maes y Dderwen; £10: (123) Mr a Mrs W. James, 8 Bro Eglwys.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth. CYMORTH CRISTNOGOL.

Diolch yn fawr i'r criw aeth o amgylch y pentref i gasglu yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol ac i'r pentrefwyr am eu haelioni. Casglwyd £843.2c.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

Cynhelir Diwrnod o Hwyl yn Ty'n Llan, Nant Peris ar 5 Gorffennaf o 12.00p.m. - 4p.m.

Diwrnod i dynnu sylw pawb ac i'w hatgoffa am y gwaith da mae Ambiwylans Awyr Cymru yn ei wneud ydi o ac, wrth gwrs, i godi arian at yr achos da hwn.

Mi fydd yna fochyn wedi ei rostio a stondinau di-ri:

Cacennau; Stodin Lyfrau, Bric a brac, Bits a bobs; Raffl, Tombola, Stodin blanhigion a llawer mwy

Gyda'r nos bydd Gerry & the Hatricks yn canu o 8.30pm ymlaen.

Am fwy o fanylion, cysylltwch ag

Anne Cumberton
Vaynol Arms, Nant Peris
Gwynedd
Ffôn: (01286) 870284

Mrs Ann Jones,
Nant Ffynnon, Nant Peris,
gynt o Fferm Beudy Mawr,
yn dathlu saith deg mlwydd
oed - 25/05/08.

Mi geisiaf ganu cân i Ann
Sy'n dathlu deg a thrigain,
Does neb yn wir o fewn y sir
Mwy diwyd na'r hen hogan.

Mae gwaith yn llifo yn y gwaed,
Ei natur yw ymroddiad,
Er colli'r gŵr ni chlywyd stŵr
Tra'n magu tair o ferched.

A'r tair yn awr sydd wedi bod
Yn trefnu man cyfarfod,
Er dangos parch ac hefyd serch
At fam a fu mor hynod.

Bydd dathlu mawr a llawenhau
A chwlwm cariad yn tynhau,
Yng nghwmni dedwydd yr hen
blant
Fe allai Ann weld dathlu cant.

DAFYDD MORRIS
Cefn Coch
Mai 2008

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS



**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



Cefnogwch ein Hysbysebwyd

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL GYNRADD

Llongyfarchiadau i'r disgyblion gymrodd ran yn y Gala Nofio ar ddod yn drydydd o ddeuddeg ysgol. Da iawn chi blant.

Diolchwn i Flwyddyn 6 am gynnal Ffair Lyfrau yn yr ysgol. Buont yn brysur yn trefnu cystadleuaeth a raffl er mwyn ennyn diddordeb a gwerthwyd dros £250 o lyfrau, gan ennill comisiwn taclus i'r ysgol.

Cafodd disgyblion yr Adran Iau fynd i Barc Glynllifon i gymryd rhan mewn Gŵyl Gyfeiriannu. Roedd yn brynhawn wrth fodd pawb.

Aeth saith o ddisgyblion am benwythnos i wersyll Yr Urdd yng Nglanllyn. Roedd Holly, Fern, Eva, Shannon, Lilac, Siôn a Matthew wedi blino'n lân erbyn prynhawn Sul, ond roedd pob un wedi cael amser gwych.

Bu cystadlu brwd ym Mabolgampau'r Urdd ar gaeau Ysgol Syr Huw Owen ac rydym yn llongyfarch y plant fu'n llwyddiannus ar y noson.

Diolchwn i Ysgol Brynrefail am roi croeso i ddisgyblion Blwyddyn

6 unwaith eto. Cawsom ninnau estyn croeso i ddisgyblion newydd i'r Meithrin yr un diwrnod. Roedd pawb i'w gweld wedi cartrefu'n dda - gobeithio bod hyn yn arwydd da at fis Medi.

UNDEB Y MAMAU. I ddiweddu ein cyfarfodydd am y tymor cyfarfu'r aelodau yn yr ysgol gymuned nos Lun, 2 Mehefin, Moes a Phryn. Croesawodd Mrs Dorothy Jones, Arweinydd y Gangen, bawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Gwen Owen a Mrs Marjorie Roberts. Trafodwyd materion a godwyd ym mhwyllgor y cyngor a phwyllgor y ddeoniaeth a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Dorothy.

Cytunodd Mrs Margaret Latham i gario'r faner yng ngwasanaeth y ddeoniaeth yn y gadeirlan. Cydymdeimlwyd â Mrs E. Jones, Lyndale, yn ei phrofedigaeth. Fe fydd y Te Mafon yn cael ei gynnal bnawn Mercher, 9 Gorffennaf, yn Starling Cottage, Llanrug.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Hilda

Orritt, hwy hefyd roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Kathleen Jones. Ar ôl y lluniaeth cafwyd amser i brynu oddi ar y stondinau. Diolchwyd i'r gwesteion gan Dorothy a therfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Hilda Orritt, Morannedd, sydd yn Ysbyty Abergele yn derbyn triniaeth i'w phen glin, hefyd i Maureen Rhys, Penrhos, Bangor (un o'r Cwm)

sydd yn Ysbyty Gwynedd. DYMUNIADAU gorau i blant y pentref fydd yn dechrau mewn swyddi neu mewn coleg y tymor nesaf.

LLONGYFARCHIADAU i Iwan a Carmen (garej Cwm) ar enedigaeth merch fach, Erin Fflur, ac i Lrfon a Heddwen ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad buan i Mrs Mair Williams, Elidir View, ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Maelor, Wrecsam.



Holly, Fern, Eva, Shannon, Lilac, Siôn a Matthew fu yng Ngwersyll Yr Urdd, Glanllyn.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PRIODAS. Dydd Iau, 22 Mai, yng Nghapel Cysegr, Bethel, priodwyd Catrin, merch Ifanwy a Gwyn Hefin Jones, Rhandir, â Rhys, mab Eleri a Meilir Owen, Penygroes. Gwasanaethwyd gan y Parch Emlyn John, Cemaes, sef taid Rhys. Y morwynion oedd Einir Gwyn, chwaer Catrin, a Megan ac Elsie, nithoedd bach Rhys. Treuliodd y ddau eu mis mêl yn teithio Ewrop. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau oddi wrth y ddau deulu.

Dymuna Catrin a Rhys ddiolch o galon i'r ddau deulu ac i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a gawsant ar achlysur eu priodas. Cafodd y ddau ddiwrnod wrth eu bodd.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMDEITHAS Y CAPEL. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Ganolfan nos Iau, 5 Mehefin. Cadeirydd y noson oedd Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed. Yn dilyn gair o groeso cynnes i bawb, arweiniwyd ni at sgwrs y noson mewn myfyrdod, gyda darlenniadau o'r Ysgrythur yn seiliedig ar y thema 'Etifeddiaeth'.

Ymhellach cyflwynodd y siaradwr gwadd, sef Hywel Roberts, Caernarfon. Roedd ei destun 'Morwyn Glasgwm Hall' yn olrhain y stori ryfeddol sut y datgelwyd yr holl fanylion am ei hen daid (un o feibion Glasgwm Hall, Penmachno a anfonwyd i'r Amerig), pan gyfarfu ar ddamwain ag Americanwr ym mynwent Penmachno un prynhawn a sylweddoli eu bod yn perthyn. Diolchwyd yn gynnes iawn i Hywel gan y Cadeirydd. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, 3 Gorffennaf. Y siaradwr gwadd fydd Lowri

Roberts Williams gyda Jennie Angharad Roberts yn cadeirio'r noson.

OEDFAON GORFFENNAF

- 13: 5.30: Parch Gwenda Richards, Caernarfon.
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.
20: 2.00: Parch W.H. Pritchard, Bae Trearddur
27: 5.30: Parch Eric Jones, Bangor.

DIOLCH. Dymuna Gwyn Hefin Jones, Trefnydd Plygu'r Eco yn lleol ddiolch yn fawr i bawb am eu gwaith nos Iau, 29 Mai. Daeth criw ardderchog a brwd i'r Caban i ymgymryd â'r dasg a chafwyd noson o sgwrsio hwyliog a chymdeithasu.

CYNHELIR Te Mefus dydd Sadwrn, 28 Mehefin, yng nghartref Dafydd a Moira Ellis, Gweledfa, o 2.00 hyd 5.00 y prynhawn. Bydd yr elw yn mynd at brosiect India, dan nawdd Menter Fachwen. Gwahoddir chi yn gynnes iawn, bydd croeso mawr i bawb.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod mis Mehefin cafwyd noson yng nghwmni Bethan Hughes, Rhuthun, yn arddangos amrywiaeth o'i gwaith llaw medrus a chywrair, ynghyd â stori neu hanes oedd yn cydfynd â phob un darn o'i gwaith. Pawb wedi mwynhau noson mor ddifyr.

Hoffai aelodau'r gangen anfon dymuniadau am wellhad buan i Jennie Hughes, Bryn Parc, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar yn cael llawdriniaeth ond sydd gartref erbyn hyn. Brysiwch wella, Jennie, mae'r trip yn mynd mis nesa.

Enillwyd y raffl gan Jean.



Disgyblion gymrodd ran yn y Gala Nofio.

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

AGE
Concern

Os byddwch yn cysylltu â swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud â chynhyrcholysd penodedig o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACEnt wedi ei awdurdodi a'i roddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfringiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestrddig.

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Cofnodion cyfarfod nos Iau, 19eg o Fehefin, a gynhaliwyd yng Ngwesty Victoria, Llanberis.

Presennol ac Ymddiheuriadau
Ward Padarn: Gavin Allsup, Emlyn Baylis, Barry Davies, Elwyn Davies (Cadeirydd), Olwen Gwilym, Bethan Holding, Derek Jones, Fred Owen, Douglas Pritchard.
Ward Peris: Iola Owen.

Ymddiheuriadau: Gwenda Roberts, Helen Sharp, Trystan Thomas (cynrychioli'r Cyngor mewn cinio Gefeillio efo Morbegno).

DatganBuddiant

DJ - ddim yn rhan o'r drafodaeth ar gais cynllunio rhif CO8A/0327/15/LL (Glynrhonwy) - ei fab yn cael ei gyflogi yno.

Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Iau y 15fed o Fai, 2008, gyda'r cywiriad fod BD 'yn chwilio am bris i ail wynebu'r llwybr o'r maes parcio i'r cae chwarae' nid fel y cofnodwyd 'fod y llwybr i gael wyneb newydd'. Cynnig ac eilio: DP/DJ.

Materion yn Codi o'r

Cofnodion

- *Cae Pêl-droed UEFA:* Mae'r cae bron wedi ei gwblhau, ac o fewn dyddiau i gael ei drosglwyddo i'r Ganolfan. Penderfynwyd cynnal cyfarfod i'w agor yn swyddogol ar y cyd â Phwyllgor Y Ganolfan. Cynnig ac eilio: DJ/IO.

Adroddodd y Clerc fod y Cynghorydd Trefor Edwards wedi ei sicrhau mewn sgwrs ar y ffôn ei fod wedi derbyn saith mil o bunnau mewn rhoddion tuag at y cae, ac na fyddai angen arian oddi wrth y Cyngor Cymuned(CC).

- *Angorfa:* Mae creiriau *Amgueddfa T. Rowland Hughes* wedi eu trin a'u symud i Ysbyty'r Chwael. Hyd yma ddaeth cynn y Band ddim i gyd i'r fei ac mae angen, ar frys, lle i'w cadw. Awgrymwyd un neu ddau o lefydd posib. Maes o law bydd angen ystyried dyfodol y cynn a'r miwsig.

- *Cae Chwarae Min y Llyn:* Penderfynwyd rhoi tarmac lle mae cryn draul wedi bod ar y cae. Dywedodd BD iddo gael pris ar gyfer ail wynebu'r llwybr y cyfeirir ato uchod (Rhif 4), ond nad oedd arian digonol yng nghyllideb Parc Padarn i wneud y gwaith eleni.

- *Hafod Eryri:* Mewn ateb i gwyn nad oedd yr enw 'Hafod Eryri' yn cael ei ddefnyddio, derbyniwyd llythyr oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn dweud fod trafodaethau ar y gweill gyda

Chwmni Rheilffordd yr Wyddfa i geisio sicrhau eu bod yn defnyddio'r enw 'Hafod Eryri' ar bob achlysur wrth gyfeirio at gopa'r Wyddfa a'r adeilad newydd.

- *Arwyddion Strydoedd:* Mae'n ymddangos fod angen enwau ar Ffordd yr Orsaf a Stryd y Farchnad, ac fod angen adnewyddu arwyddion Stryd Warden (2); Rhes Cambrian; Stryd Olgra (newid lleoliad).

- *Maes Parcio'r Llyn:* Mae'r llinellau melyn wedi eu paentio yn y Maes Parcio, ac mae'n ymddangos eu bod wedi atal y parcio anghyfreithlon ar y palmant. Diolchwyd i BD am drefnu.

- *Parcio Nantperis:* Er nad ydi talu am barcio hyd yma yn orfodol yn Maes Parcio APCE, mae cryn bryder am yr effaith a gaiff hyn ar barcio yn y pentref, ac yn arbennig o flaen tai Nantffynnon. Galwodd IO am arwyddion 'Parcio i breswylwyr yn unig' ar gyfer y tai. Cytunwyd i ofyn am hynny i Gyngor Gwynedd.

Cynllunio

Cyngor Gwynedd:

- CO8A/0322/15/AM. *Cais amlinell i godi tŷ annedd (ail gyflwyniad o gais CO7A/0374/15/AM):* cwrtail Bryn Du, Ffordd Tŷ Du, Llanberis. Gwrthwynebu, am fod y safle ar hyn o bryd y tu allan i ffin datblygu'r pentref, er y gallai hynny newid. Adroddwyd fod rhai o gerbydau Bryn Du yn cael eu parcio ar y ffordd sirol gerllaw yn hytrach nag o fewn y cwrtail, ac roedd pryder am welediad ar y ffordd o fynedfa bosib y safle. Mynegwyd pryder hefyd am golli coed ac am fywyd gwyllt ar y safle, yn arbennig ystlumod.
- CO8A/0327/15/LL: *Gosod 4 cynhwysydd oeri ar gefn y prif adeilad a chreu maes parcio o flaen y prif adeilad:* Glynrhonwy,

Llanberis. Dim gwrthwynebiad, cyn belled a bod sicrwydd na fydd lefelau sŵn yn cynyddu o'r adeilad yma.

- CO8A/03377/15/LL: *Dymchwel adeilad presennol a chodi adeilad unllawr ar gyfer dysgu a storio, a chreu patio allanol:* Bryn Du, Stryd yr Wyddfa, Llanberis. Dim gwrthwynebiad. Cynnig ac eilio: FO/DP.

APCE:

- NP3/15/T202: *Ymestyn y tŷ, adeiladu sied unllawr ar wahân, a gosod gwaith trin carthion preifat:* Blaen y Nant, Nantperis. Dim gwrthwynebiad.

Wedi eu Caniatáu / Gwrthod CG: Caniatáu

- CO7A/0666/15/LL: *Trosi stiwdio i dŷ annedd a chreu lle parcio:* 1 Pyllau Dŵr, Llanberis.

- CO8A/0145/15/CR: *Trosi cyn-fwyty i 3 Uned byw hunan-gynhaliol:* 59 Stryd Fawr, Llanberis (cais diwygiedig).

- CO8A/0265/15/LL: *Porth ar flaen yr annedd, estyniad llawr cyntaf ar ochr yr annedd:* 47 Maes Padarn, Llanberis.

CG: Gwrthod

CO8A/0195/15/CR: *Dymchwel dau gyn-annedd, adeilad festri a storfa:* Capel Jerusalem, Pentre Castell, Llanberis [Mae'r rhain yn adeiladau rhestredig, ac roedd eu dymchwel yn groes i bolisi B1 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd (Fersiwn Diwygiadau Arfaethedig Drafft 2008); polisi 9RH o Gynllun Lleol Arfon Wledig ac yn groes i ofynion D23 o Gynllun Fframwaith Gwynedd]

APCE: Caniatáu

- NP3/15/203: *Dymchwel y bloc toilet unllawr ac estyniad cawod presennol a codi estyniad toilet a cawod unllawr:* Adeilad 'The Rucksack Club', Beudy Mawr, Nantperis.

- NP3/15/171A: *Adeiladu estyniad cefn deulawr:* 7 Rhes y Faenol, Llanberis.

- NP3/15/82A: *Addasu'r estyniad ochr unllawr presennol i greu estyniad deulawr, adeiladu portsh newydd i ffrynt y tŷ, a gosod ffenestri to, 16 a 17 Pentre Castell, Llanberis.*

Llwybrau

- Cafwyd adroddiad fod angen edrych ar lwybr Hafod Lydan i Pyllau Dŵr, am ei fod mewn cyflwr anfoddhaol, ac roedd angen torri rhedyn rhwng Mur Cwmp a Ffordd Tŷ Du. Mae angen edrych hefyd ar gyflwr y llwybr ger Llainwen Ucha a'r 'stepiau'. Bydd panel ymweld yn cael ei drefnu yn fuan.

Mae coed hefyd yn gwyro dros y palmant ger Tro Pentwnal, rhwng Llanberis a Phenllyn.

- Penderfynwyd yn unfrydol i wella cyflwr y llwybr sy'n arwain o'r ffordd fawr ger Cwm Aelir Ucha' i gapel Hebron. Bydd yn ychwanegiad gwerthfawr at rwydwaith llwybrau'r ardal. Cafwyd prisiau am y gwaith y llynedd. Mae un ohonynt yn dderbyniol.

Cymorthdaliadau

Adroddwyd fod llai o geisiadau nag arfer eleni. Mae hynny yn rhannol oherwydd i nifer gyrraedd ar ôl y dyddiad cau fel yr hysbyswyd ef yn *Eco'r Wyddfa* a'r *Herald*.

Penderfynwyd pennu cymorth o dan Gyllun Cronfa Cymorthdaliadau Bychan y Cyngor fel â ganlyn:

Eco'r Wyddfa; Cylch Meithrin, Llanberis (Rhent a chymorth ariannol); Cymdeithas Lenyddol Undebol Llanberis; Cwmni Cydweithredol Siop 'Saffron'; Eglwys Sant Peris (Torri gwair ddwy waith); Geidiaid, Browies a Rainbows, Llanberis; Clwb Pêl-droed 'Colts' Llanberis; Clwb Antur Dyffryn Peris; Cynllun Gweithwyr Ieuenctid Eglwys'r Cylch, Cynllun 'Efe'; Cwmni Theatr Bara Caws; Tŷ Gobaith; Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd; Cymdeithas Spina Biffida a Hydrocephalus Gogledd Cymru; NSPCC Childline Cymru; Ymgyrch Porth Coffa, Prifysgol Cymru, Bangor; Shelter Cymru; Cruise Bereavement Care, Gogledd Cymru.

Gohebiaeth

- CG: *Cynllun Plant a Phobl Ifanc Gwynedd* (drafft): Ein Cynllun Ni, Eich Cynllun Chi. OG i edrych arno.

- *Heddlu Gogledd Cymru:* Fforwm Gymunedol, 15 Gorff 2008, Porthmadog. (Neb ar gael)

- *Dulas Engineering a Gwaith Trydan Dŵr:* Derbyniwyd llythyr i nodi fod cais cynllunio ar hen waith trydan dŵr lle tynnir y dŵr o'r pwll wrth droed Rhaeadr Llanberis wedi ei gyflwyno.

- CG: *Gorchymyn i gau dros dro Ffordd Dosbarth III, Lôn yr Eglwys, Llanberis.* Gobeithir y bydd y gwaith sy'n para bythefnos, yn dechrau ar yr 16eg o Fehefin. (Mae'r Gorchymyn am 3 mis).

- CG: *Sesiynau Hyfforddi ar y Côt Ymddygiad Newydd:* 25

Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth

Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO



www.fframia.com

FFRAMIA

Parc Padarn, Llanberis

(01286) 870922

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan

William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyl.

Mehefin, Caernarfon 6.30yh. ED a OG i fynychu.

• **CG: Strategaeth Gymunedol Gwynedd:** Ymgynghoriad ar Ddogfen Drafod Gwynedd ar y Cyd 2008–2012.

• **CG: Cynnal a Chadw Llwybrau:** Yr un trefniant â'r llynedd, sef fod y CC y gwneud y gwaith a CG yn ad-dalu'r gost, gyda ychwanegiad bychan yn y tâl ers llynedd.

• **Gwenda Harding:** Cerdyn diolch oddi wrth gyn-ofalwraig 'Angorfa'.

• **APCE – Gwelliant i'r Gwasanaeth Cynllunio:** Llythyr yn egluro sut y mae'r Awdurdod yn gobeithio gwella ei wasanaeth cynllunio. Yn awr mae holl geisiadau cynllunio Eryri i'w gweld ar y wefan, www.eryri-npa.gov.uk trwy ddewis y cyswllt 'cynllunio yn Eryri' ac yna 'chwilio ceisiadau'.

• **Cwmni UHY Hacker Young:** Rhybudd o Archwiliad Blyneddol. Yr holl gyfrifon i fod gyda'r cwmni erbyn y dydd olaf o Orffennaf 2008.

• **Cwmni BT ac APCE:** Ymgynghoriad ar gau Blychau Ffôn – Er nad oes blychau i'w cau yn yr ardal yma ar hyn o bryd penderfynwyd anfon gair yn gofyn am gadw o leia un blwch ar agor mewn ardaloedd gwledig anghysbell, rhag ofn argyfwng.

• **Cwmni First Hydro, Llyn Marchlyn:** Gwahoddiad i nifer cyfyngedig o'r aelodau fynd i weld y gwaith a wnaed yn ddiweddar i ehangu Cronfa Marchlyn Mawr. Cytunodd FO a DP i fynd yno ar ran y CC.

• **Stampiau:** Llythyr oddi wrth *D G Ifan, Llanrug* (Trefnydd Ymgyrch Stampiau Cymreig i Gymru) yn gofyn am gefnogaeth i'r ymgyrch i gael stampiau post Cymreig. Cefnogi.

• **Cyngor Cefn Gwlad Cymru:** Taflen wybodaeth at Gynghorwyr a Chynghorau yn amlinellu gwaith y Cyngor. Rhagor o wybodaeth ar y wefan, www.ccw.gov.uk

• **Hywel Williams AS:** Dymuno dod i gyfarfod y Cyngor. Cytunwyd i'w wahodd i gyfarfod mis Medi (Medi 18fed).

• **Asiantaeth y Swyddfa Brisiol:** Holi am Storfa Ffordd Capel Coch. Penderfynwyd fod angen ystyried dyfodol yr adeilad. A ydyw o unrhyw werth i'r Cyngor a'r Gymuned?

• **RA/Cymdeithas y Cerddwyr:** Tâl aelodaeth yn ddyledus. Cytuno i ail ymaelodi oherwydd gwaith y mudiad i ddiogelu hawliau tramwy.

• **Adroddiad Blyneddol yr Ombudsmon:** FO i'w ddarllen.

• **Un Llais Cymru:** cais am wirfoddolwyr ar stondin y mudiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn mis Awst. (Neb ar gael)

• **Goriad Gwyrdd Eryri – Llwybr**

Cerdded Nantperis: Llythyr yn nodi fod y gwaith yn mynd yn ei flaen i greu'r llwybr yma gyda ymyl y ffordd o faes parcio APCE i Gwastadnant. Gobeithir dechrau'r gwaith tua diwedd mis Medi. Mae'r Cyngor a'r Clerc wedi ymgyrchu ers blyneddodedd i greu'r llwybr yma i drigolion ac ymwelwyr, ac roedd croeso mawr i'r newydd.

• **Goriad Gwyrdd Eryri – Lloches Bws Nantperis:** Copi o gynlluniau newydd ar gyfer y Lloches.

Unrhyw Fater Arall

• **Adroddiad gan BD** fod Parc Padarn yn bwriadu codi hen bolion angori cychod sydd ar lan y llyn a threfnu hanner dwsin o rai newydd ar gyfer cychod pysgotwyr lleol. Apeliodd am wybodaeth pwy oedd yn arfer defnyddio'r hen angorfeydd ar lan llyn Padarn. Y rheswm ydi i ffurfioli'r cyfan a thwtio'r glannau. Ar ddŵr uchel mae llawer o'r polion yma yn beryglus dan wyneb y dŵr. Cafodd y bwriad ei groesawu ar ôl deall y bydd angorfeydd newydd.

• **Un Llais Cymru:** Cafwyd adroddiad o gyfarfod blyneddol y mudiad gan ED. Mynegwyd pryder yno fod Clercod cynghorau yn aml yn dilyn trefn waith wahanol ac fod angen ffurfioli rhai agweddau trwy drefnu cyrsiau. Roedd anogaeth hefyd i Glercod ymuno â Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

• **Llinellau Melyn:** Adroddwyd fod llinellau melyn a baentiwyd yn ddiweddar yn Stryd Turner a mannau eraill wedi gwaethgu'r sefyllfa barcio. Gofynnwyd i'r Clerc edrych ar y strydoedd ac yna cysylltu â CG.

• **Tir Pont Fictoria:** Cytunwyd i dorri'r gwair yma yn fisol. Cynnig ac eilio: GA/DP.

Cyfarfod Nesaf

Gwesty Victoria, nos Iau y 19eg o Fehefin, 2008 am 7 yr hwyr.

Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

**Cefnogwch
ein Hysbysebwy**

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Cymuned Waunfawr yng Nghanolfan Caeathro am 7.30 yh ar 14 o Ebrill 2008.

Nodwyd nad oeddem eto wedi derbyn cynlluniau llwybrau cyhoeddus yr ardal gan y Cyngor ar gyfer categorïddio y llwybrau. Clerc i edrych mewn i'r sefyllfa.

Hysbysfwrdd Waunfawr – dim i'w adrodd

Llinellau Melyn (Waunfawr a Chaeathro) – dim i'w adrodd

Fainc tu allan i'r Ganolfan – wedi ei symud oherwydd ei chyflwr.

Blwch post – dim i'w adrodd, disgwyl i'r Post Brenhinol ddod yn ôl atom gyda dyddiad.

Trafodwyd cyflwr y llochesau bws – dim cynwion wedi dod i law. Nodwyd fod eu cyflwr yn foddhaol.

Y Fynwent – Derbyn cofnodion cyfarfod 21.03.08. Nodwyd y cynnydd yn ffioedd claddu y Fynwent a chynigwyd eu bod yn gywir. Trafodwyd cyflwr y cwt yn y fynwent a chynigwyd ein bod yn dymchwel y cwt a gwneud y safle yn ddiogel.

Nodwyd fod giât y Fynwent yn dal angen sylw.

Llwybrau troed y pentref – Llwybr ger Plas Glanrafon – gwaith wedi cwblhau.

Cynllunio – Roedd 2 gais cynllunio i law, a doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau.

Roedd 1 cais cynllunio arall wedi derbyn cymeradwyaeth gan Gyngor Gwynedd.

Mantolen – Derbyniwyd mantolen y Cyngor am y flwyddyn 2007/08 a nodwyd ei bod yn gywir.

Daeth nifer o geisiadau am roddion gerbron, a bu i'r Cyngor benderfynu rhoi rhodd i'r mwyafrif o'r ceisiadau.

Materion eraill a godwyd yn ystod y cyfarfod

• **Gohebiaeth** gan Gyngor Gwynedd ynglŷn ac Adolygu'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus.

• **Cwyn ynglŷn â baw cŵn** ar balmetydd y pentref – clerch i hysbysu'r Cyngor.

• **Angen sylw i fater o or-yrdd** drwy bentref Waunfawr.

Cynhaliwyd cyfarfod Blyneddol Cyngor Cymuned Waunfawr yn y Ganolfan, Waunfawr, am 7.15 yh ar 12 Mai 2008.

Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

Rhoddyd Rhodd y Cadeirydd am y flwyddyn 2007/08 i Fynwent Caeathro.

Etholwyd y Cyng Elfyn Griffith fel Cadeirydd am y flwyddyn 2008/09, bydd yr Is-Gadeirydd yn cael ei benodi yn ein cyfarfod nesaf.

Cyfetholwyd aelodau newydd i Ward Waunfawr, sef Ms Lynne

Brown a Mr Eurig Wyn. Doedd dim aelod newydd wedi datgan diddordeb i Ward Caeathro, bydd rhaid ethol yn ein cyfarfod nesaf.

Penodwyd y Cyng Gwilym Williams, Y Cyng Pat Parry, Y Cyng Tegid Prichard a'r Cyng Bryn Jones ar gyfer Pwyllgor y Fynwent ac Eiddo, a penodwyd y Cyng Bryn Jones i wasanaethu fel Llywodraethwr Ysgol Gynradd y Waunfawr.

Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Cytunwyd ar ddyddiadau cyfarfodydd ar gyfer 2008–09 ac mae croeso i chwi gysylltu â'r Clerc os am fwy o wybodaeth.

Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Cymuned Waunfawr yng Nghanolfan Waunfawr am 7.15 yh ar 12 Mai 2008.

Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchwyd i'r Cyng Clive James am ei waith fel Cadeirydd dros y flwyddyn diwethaf.

Hysbysfwrdd Waunfawr – disgwyl y Post ddod yn ôl atom i gadarnhau lleoliad y blwch post newydd.

Llinellau Melyn (Waunfawr a Chaeathro) – dim i'w adrodd.

Blwch post – dim i'w adrodd disgwyl y Post Brenhinol ddod yn ôl atom gyda dyddiad.

Y Fynwent – Dim i'w adrodd

Llwybrau troed y pentref – Lôn Gwyrfa – angen holi ynglŷn â'r giatiau.

Cynllunio – Roedd 2 gais cynllunio i law, a mynegwyd dim gwrthwynebiad i un o'r ceisiadau, ond roedd gwrthwynebiad cryf iawn i'r ail gais.

Roedd 2 gais cynllunio arall wedi derbyn cymeradwyaeth gan Gyngor Gwynedd.

Materion eraill a godwyd yn ystod y cyfarfod

Gohebiaeth gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â gerddi cefn Tai Bryn y Gof, Caeathro, a mater o ysbwriel ar ochr ffyrdd yn yr ardal.

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

a hefyd ein swyddfa newydd
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 355055

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswariant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

DIOLCHIADAU. Dymuna Elaine, Siop Trin Gwallt, ddiolch o galon i bawb am y dymuniadau da, cardiaau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Hefyd, dymuna Megan Axon, 13 Hafan Elan, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, cardiaau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Grosvenor, Nuffield, Caer, yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Dafydd, Anwen, Elin ac Ifan, Bryn Moelyn, ddiolch yn ddiffuant i ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad yn cynnwys y llu cardiaau, ymweliadau a galwadau ffôn, a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mona, mam Dafydd yn Llangejni yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLAD. Ar yr 2il o Fehefin, bu farw Betty Lloyd Roberts, Meifod, yn 59 mlwydd oed. Gwraig annwyl Selwyn, mam arbennig Bethan a Deian, nain hoff Katie, Anna, Jac, Harvey a Freya, merch annwyl Mrs Bet Jones, Lyndale, chwaer Merfyn a chwaer-yng-nghyfraith, mam-yng-nghyfraith a ffrind da. Cydymdeimlwn yn arw iawn â chi i gyd. Bydd colled enfawr ar ei hôl.

Hefyd, yn 94 mlwydd oed, bu farw Mrs Sarah Griffiths, 12 Glan Moelyn, wedi gofal tyner ei phlant a'r teulu. Bydd colled fawr iddynt a chydymdeimlwn yn ddiffuant ag Eurwen, Alwyn, Lynda, Mair, Enid a Nesta a'r teulu oll.

Estynnwn gydymdeimlad diffuant at Dafydd, Anwen, Elin ac Ifan, 11 Bryn Moelyn, yn eu profedigaeth o golli mam Dafydd yn Llangejni. Roedd yn fam a nain annwyl iawn a bydd colled fawr iddynt fel teulu.

Cydymdeimlwn hefyd ag Isabel Owen, Afon Rhos a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar o golli eu mam, Mrs O. Griffiths yng Nghaernarfon.

Hefyd â Mrs Megan Axon, Hafan Elan, ar golli ei chwaer, Mrs Blodwen Parry (Deiniolen gynt) a Mair Parry, Tir Na Nog, Bryn Moelyn, ar golli ei merch-yng-nghyfraith.

Wedi deall fod Mrs Laura Owen, Glasdy gynt, wedi ein gadael hefyd. Cydymdeimlwn yn arw â'i theulu hithau.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb 100 mis Mehefin yw:

£20: Tom Davies, Llys Alaw;
£7: Mrs E. Rowlands, Llys Forgan;
£5: Mrs V. Williams, Awelon.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Cyfarchion gorau i Gwenda Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, ar dathlu ei phen-blwydd yn 60 oed. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y dathlu!

GWELLHAD BUAN. Brysiwch wella, Mrs Katie Davies, Hafan Elan – deall nad ydych wedi bod yn dda, a hefyd Mrs Ceri Hughes, Hafan Elan. Cofion gorau at Mr Gwilym Griffiths (Plymar) Pant Tirion, mae cymaint yn holi amdanoch ac yn dymuno'n dda i chi.

Dymunwn wellhad buan i bawb sydd ddim yn dda.

ARHOLIADAU. Mae yn gyfnod prysur ar blant a phobol ifanc y pentref ynghanol eu haroliadau ysgol a cholegau. Pob lwc i chi i gyd.

GŴYL FAI PENBONT. Cynhaliwyd Gŵyl Fai Penbont dydd

Sadwrn, 24 Mai, ym maes parcio y Penbont, Llanrug. Diwrnod o hwyl i'r teulu ydoedd, i fwynhau grwpiau lleol yn canu, bownshio ar y castell neidio, cael paentio wyneb a barbaciw. Disgleiriodd yr haul ac fe ddaeth torf enfawr i lawr.

Dechreuodd y diwrnod gyda theatr fach Llanrug yn perfformio gwledd o ganeuon, dan arweiniad Marilyn a Geraint. Yna cawsom ein diddanu gan y grŵp enwog, Yr Anhrefn a Mr Ryan Kiff. I ddilyn daeth hogia Bethel, sef y Mud Flaps, ac yna dau grŵp o Lanrug, sef Something Personal a'r Numb Gums. Yna ar ôl wythnosau o ymarfer, dan hyfforddiant Sasha a Donna, cafodd criw o enethod y pentref ddangos eu doniau dawnsio disgo.

Prif weithgaredd y prynhawn oedd y ras gasgen o amgylch stad Bro Rhyddallt. Rhedodd deuddeg tîm, ambeil un y stryglu mwy na'r llall, heb enwi neb!! Enillwyd y ras gan Phillip Lynnes ac Eifion Williams. Da iawn, hogia. Hefyd, enillwyd nifer o wobrau raffl. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Diweddwyd y prynhawn llwyddiannus gyda Dewi a Garry yn canu medli o ganeuon. Casglwyd swm o £1,200 tuag at gangen Ynys Môn a Gwynedd o Motor Neurone Disease a Ward Heulwen, Ysbyty Glan Clwyd. Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb am gefnogi'r diwrnod yma ym mhob ffordd.

CYMORTH CRISTNOGOL. Eleni, casglwyd £1,917.70 ym mhentref Llanrug – mae hyn yn cynnwys y rhodd gymorth. Dyma'r swm mwyaf sydd wedi ei gasglu hyd yma yn y pentref. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd mor anrhydeddus ac i bawb a fu mor barod i fynd o gwmpas yn casglu.

CAPEL Y RHOS. Yn ystod gwasanaeth bore Sul, Mehefin 1af, bedyddiwyd Anni Grug, merch fach Sara a Gwynedd Evans, Llys Awen, gan y gweinidog, Y Parch. Marcus Robinson. Braff iawn oedd cael croesawu nifer o deulu a ffrindiau i'r oedfa arbennig hon.

Cynhelir gwasanaeth arbennig gan yr aelodau fore Sul, Mehefin 29ain. Cofir yn benodol am fywyd a gwaith Dr. Martin Luther King, gan fod deugain mlynedd wedi mynd heibio ers ei farwolaeth.

Oedfaon mis Gorffennaf – 6 Gorffennaf:

Parch. Marcus Robinson
13 Gorffennaf:

Parch. Angharad Roberts
20 Gorffennaf:

Parch. Marcus Robinson

27 Gorffennaf:

Parch. Arthur M. Roberts.

YR YSGOL GYNRADD

CROESO 'nôl i Mrs Rhian Jones sydd wedi bod i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth. Diolch i Miss Siân Pritchard a fu yma yn ei lle.

MABOLGAMPAU. Cynhaliwyd noson fabolgampau llwyddiannus ar gae'r ysgol. Gweler y canlyniadau ar wefan yr ysgol. Diolch i bawb a gefnogodd.

FLORA. Os ydych yn bwyta Flora yn eich tŷ chi, buasem yn ddiolchgar petaech yn casglu'r tocynnau arian ar y top 'Cooking for Schools'. Mae modd i ni fel ysgol gael offer cegin i'r ysgol ar gyfer congino fel rhan o gynllun Ysgolion Iach.

TYNNU LLUN. Bu cwmni Tempest yma yn tynnu lluniau unigol a theuluoedd.

CAE'R GORS. Cafodd Blwyddyn 5 ymweliad buddiol â Chae'r Gors, Rhosgadfan, sef cartref un o lenorion gorau ein cenedl, Kate Roberts. Mae erbyn hyn yn Ganolfan Treftadaeth.

GALA NOFIO ARFON.

Cynhaliwyd y gala nofio ysgolion flynyddol yng Nghanolfan Hamdden Arfon. Bu cyfle i bob ysgol sydd yn mynychu'r ganolfan hamdden am wersi nofio wythnosol gystadlu.

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion a gymerodd ran – gan helpu'r ysgol i gyrraedd yr ail safle yn y gystadleuaeth i'r ysgolion mwyaf. Da iawn chi!

Cynhaliwyd Mabolgampau'r Urdd, Cylch Arfon ar gaeau Ysgol Syr Hugh Owen, ddydd Mercher, 11 Mehefin. Gwnaeth plant yr ysgol yn ardderchog. Pob hwyl i Rhiannon, Catrin, Hannah a Lleucu ym mabolgampau Rhanbarth Eryri ar gaeau Treborth.

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, 10 Mehefin, cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol yn y Sefydliad Coffa. Estynnwyd croeso cynnes i'r nifer dda a ddaeth i'r cyfarfod gan y Llywydd, Megan Roberts. Darllenwyd Cofnodion 2007–2008 gan yr Ysgrifennydd, Myfanwy Parry, ac fe'u cadarnhawyd yn gywir. Bu'r dasg o ethol swyddogion yn rhwydd iawn a diolchodd y Llywydd i bob un ohonynt am eu parodrwydd. Diolchwyd hefyd i'r swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor am sicrhau blwyddyn ddifyr a llewyrchus iawn a diolchwyd i Megan am lywio'r nosweithiau mor gartrefol.

Daeth ein Llyfr Lloffion yn drydydd yn y Rhanbarth a difyr oedd cael pori drwyddo a chofio'r gweithgareddau diddorol a fwynhawyd.

Llongyfarchwyd Ann Lloyd ar ddod yn nain am y tro cyntaf, ganed mab bychan, lanto, i Nia. Cydymdeimlwyd yn ddwys â Jean yn ei phrofedigaeth o golli anwyliad

yn y teulu, â Bethanne ar golli brawd-yng-nghyfraith ac â Julie ar golli ei mam.

Bu'r Noson Gelf a Chrefft yn Dinas yn llwyddiannus dros ben. Derbyniodd Phyllis Elis, ein Llywydd nesaf, y wobr gyntaf gyda'i gemwaith. Menna enillodd Raffl y Noson, sef tapestri bendigedig o eiriau 'Cân y Mudiad' gan D. Jacob Davies, wedi ei bwytho'n gywrain gan yr awdures, Brenda Wyn Jones, Tregarth.

Mae Cardiau Nadolig ar werth yn awr, 10 cerdyn am £2.50, a'r Dyddiadur am £3. Mae Myfanwy yn derbyn archebion erbyn 1 Gorffennaf. (870846).

Gorffennwyd y cyfarfod gyda lluniaeth ysgafn o win a chaws a danteithion sawrus a melys. Clo arbennig felly i flwyddyn llwyddiannus dros ben.

CHIROPODIST

Gwasanaeth yn
eich Cartref


E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:

(01286) 675754



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwych

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**



Angylion Sasha yng Ngŵyl Penbont, Llanrug.

YSGOL BRYNREFAIL

Blwyddyn 6

Croesawyd blwyddyn 6 o ysgolion y dalgylch i Ysgol Brynrefail ar ddechrau mis Mehefin. Trefnwyd wythnos o weithgareddau iddynt gyda phob ysgol yn ymweld ar wahanol ddiwrnodau.

Pêl-droediwr o Fri!

Ydych chi wedi clywed am bêl-droediwr ifanc o'r enw Jamie McDaid? Anghofiwch Aaron Ramsey - Jamie McDaid yw ein seren ni yma yn Ysgol Brynrefail. Mae eisoes yn chwarae i Wrecsam ond eleni cafodd ei ddewis i chwarae i Gymru.

Ym mis Mai aeth i Belffast i gynrychioli Cymru gyda 30 o chwaraewyr ifanc eraill. Dyma ddyweodd Jamie am ei brofiadau:

'Rydw i'n chwarae pêl-droed ers yn saith oed. Dwi'n mwynhau oherwydd dyma yw fy hoff gamp ac rydw i'n hoffi sgorio a phasio a sgilio chwaraewyr eraill. Hefyd, rwyf yn hoffi'r teimlad o chwarae a chael chwarae yn yr un tim â'ch ffrindiau. Roedd yn deimlad hapus pan gefais fy newis i chwarae i Gymru oherwydd dyna oedd fy uchelgais. Caf chwarae yng nghystadlaethau y Tair Gwlad eto'r flwyddyn nesaf ac rwy'n benderfynol o drio'n galed. Fy arwr i yw Ronaldo



oherwydd fod ganddo sgiliau a chyflymder. Fo yw'r chwaraewyr gorau yn y byd! Fy uchelgais yw bod yn bêl-droediwr proffesiynol fel Ronaldo.'

Hamdden Blwyddyn 10

Yn ystod y pum wythnos ar ôl hanner tymor mae pawb ym mlwyddyn 10 yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau hamdden gan eu bod yn methu'r Wythnos Drawsgwricwlaidd oherwydd eu ffug arholiadau. Dyma'r gweithgareddau: dringo, cyfeiriannu, beicio, hunan amddiffyn a thenis. Braff iawn wir! Mwynhewch!

Yr Wythnos Drawsgwricwlaidd

Ar 7 Gorffennaf mae Ysgol Brynrefail yn trefnu Wythnos Drawsgwricwlaidd i bawb ym

mlwyddyn 7, 8 a 9. Mae'r disgyblion yn cael profi sawl gweithgaredd fel ymweliad â'r chwarel, beicio ar hyd Lôn Eifion a choginio bwydydd Ffrengig! Yn wir, mae'n brofiad hynod werthfawr iddynt. Rydym yn edrych ymlaen yn arw ac yn gobeithio am dywydd braff!

Mabolgampau Ysgol Brynrefail

Ar ddydd Mercher, 4 Mehefin, cynhaliwyd mablogampau'r ysgol. Cafwyd tywydd ffafriol gyda'r haul yn gwenu'n braff ar adegau. Er i'r gwynt fod braidd yn oer erbyn y prynhawn cawsom ddiwrnod sych ac, o'r herwydd, roedd y cystadlu'n frwd iawn. Roedd disgyblion blynedd 7, 8, 9 a 10 yn cystadlu mewn cystadlaethau taflu, neidio a rhedeg ac roeddynt yn lliwgar iawn yn eu dillad chwaraeon, gyda sawl un yn dewis gwisgo lliwiau eu tai - coch i Eryri, melyn i Eilian, gwyrdd i Elidir a Gwyrffai yn las. Roedd hi'n braff iawn gweld cymaint o ddisgyblion yn cystadlu ac yn mwynhau.

Dŵr! Hyfryd Ddŵr!

Rydym i gyd yn llawer mwy ymwybodol o bwysigrwydd yfed dŵr er mwyn cadw'n iach ac, o'r herwydd, mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn 8 ffynnon ddŵr i'w lleoli o gwmpas yr ysgol. Bydd pedair yn cael eu rhoi yn y toiledau, dwy yn y ffreutur, dwy yn ystafelloedd newid y bechgyn a'r genethod ac un yn ystafell yr athrawon. Gobeithiwn y bydd pawb yn manteisio arnynt ac yn yfed digonedd o ddŵr yn ystod y dydd (ond ddim yn ystod gwrsi, wrth gwrs!) Derbyniwyd grant fel cyfraniad at y gost.

Llwyddiannau Athletau Arfon ac Eryri

Bu 23 o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn llwyddiannus ym mablogampau Arfon ac ennill eu lle ym Mablogampau Eryri. Derbyniodd naw ohonynt fedalau yn Eryri a bydd y pump a ddaeth yn gyntaf yn mynd ymlaen i bencampwriaeth Cymru fis Gorffennaf yn Aberhonddu. Pob dymuniad da iddynt.

Dan 20: Hawys Price, 1af Naid Uchel a 1af Naid Driphlyg.

Dan 17: Andrew Woodcock, 1af 800 metr.

Ezra Warren, 1af 1500 metr.

Awen Hughes, 1af Naid Driphlyg.

Sharron Hanks, 2il Naid Uchel. Louis Williams, 3ydd Disgen.

Dan 15: Tomos Emlyn, 2il 1500 metr.

Heledd Roberts, 3ydd Clwydi.



Ystwytho'r corff.



Genod bl.7.



Ras gyfnewid bechgyn bl.7.



Ras gyfnewid genethod bl.10.

Cystadleuaeth 'Cerddor Ifanc y Flwyddyn'

Nos Wener, Mehefin y 6ed, cynhaliwyd cystadleuaeth 'Cerddor Ifanc y Flwyddyn' yn Galeri, Caernarfon. Trefnwyd y noson gan Glwb Rotari Caernarfon. Eleni, cynhaliwyd cystadlaethau ar wahân i flwyddyn 7, 8 a 9 a blwyddyn 10 i 13. Roedd y safon yn uchel iawn. Cynrychiolais i Ysgol Brynrefail yn y gystadleuaeth i flwyddyn 7, 8 a 9 yn erbyn Sara Pennant o Ysgol Syr Hugh Owen a Caryl Roberts o Ysgol Dyffryn Nantlle. Roeddwn i'n chwarae'r corn tenor, Caryl yn canu a Sara'n canu'r piano. Sara a ddaeth i'r brig. Y beirniaid oedd Dewi Ellis Jones a Steven Rees. Daeth Caryl yn ail a minnau'n drydydd.

Roedd y gystadleuaeth hyn ychydig yn anoddach gan fod chwech yn cystadlu - Rhydian Lewis a Carly Griffith o Ysgol Syr Hugh Owen, Sian Crisp a Gwenllian Elias o Ysgol Dyffryn Nantlle, ac Aled Williams a Lois Eifion o Ysgol Brynrefail. Roedd y safon yn aruthrol o uchel ond Gwenllian gipiodd y wobwr gyntaf, gyda Lois yn ail a Rhydian yn drydydd.

Cefais brofiad anhygoel gan fod safon y cystadlu mor uchel. Hefyd, roedd cystadlu yn erbyn offerynnau gwahanol heblaw pres yn sialens. Teimlais yn nerfus iawn cyn mynd ar y llwyfan, ond ar ôl y dechrau roedd yn brofiad gwefreiddiol a gobeithiaf gael profiad tebyg eto yn y dyfodol agos.

Diolch yn fawr i Manon Elwyn am ei hadroddiad. Rhaid hefyd llongyfarch Siôn Elwyn Hughes am gipio'r ail wobwr am Gyfansoddi yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Conwy.

Llongyfarchiadau hefyd i Lois Eifion a Sion Elwyn am ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth y Ddeuawd Offerynnol yn Eisteddfod yr Urdd.

Ffarwel i flwyddyn 13!

Dydd Gwener, Mai 23ain, oedd diwrnod olaf blwyddyn 13 fel disgyblion yn Ysgol Brynrefail. Rydym yn dymuno pob lwc iddynt yn yr arholiadau ac ar gyfer y dyfodol. Braff iawn oedd eu gweld yn griw hapus a siriol ar eu diwrnod olaf. Cafwyd parti ffarwel yn llyfrgell yr ysgol yn ystod amser cinio gyda'r staff a'r disgyblion yn cyd-fwynhau. Dywedodd Mr Eifion Jones ambell air i ddymuno'n dda iddynt ac yna siaradodd Ffion Williams, y Prif Ferch, a Dewi Foulkes, y Prif Fachgen, ar ran y disgyblion.

Profiad Gwaith Arlwyio TGAU

Yn ystod wythnos 19-23 Mai, bu blwyddyn 10 sy'n dilyn cwrs Arlwyio allan ar brofiad gwaith mewn lleoliadau diwydiant Arlwyio. Mae hyn yn rhan o

waith cwrs y disgyblion. Roedd pawb wrth eu boddau yn cael bod yn rhan o'r Byd Gwaith. Hoffai'r criw ddiolch i'r sefydliadau perthnasol sy'n gefnogol bob blwyddyn:

Ysgolion Cynradd Penisarwaen, Cwm y Glo, Waenfawr, Bethel, Eifion Wyn (Porthmadog); Ffreutur Barcud; Maccsen; Caffi Antur Waenfawr; Cofi Roc; Cartref Henoed Penisarwaen; Gwesty'r Fictoria, Llanberis; Gwesty Seiont Manor; Gwynedd Restaurant.

Pêl-droed

Llongyfarchiadau i dim pêl-droed blwyddyn saith am ennill yn y rownd gyn-derfynol yn erbyn Ysgol y Moelwyn ar ddydd Iau, Mai 22ain.

Dyma adroddiad ar y gêm gan Guto Griffiths 7S:

Roedd pawb yn edrych ymlaen am y gêm fawr hon rhwng Ysgol Brynrefail ac Ysgol y Moelwyn yn rownd gyn-derfynol Cwpan Gwynedd. Roedd pawb yn llawn egni ar dechrau'r gêm. Cychwynnodd y gêm yn dda i Frynrefail a doedd dim syndod pan sgoriodd Nathan Hughes. Yn anffodus tarodd Moelwyn yn ôl. Roedd hi'n gêm gyffrous gan fod y ddau dîm yn gwrthio am ail gôl. Sgoriodd y Moelwyn eu hail gôl, ond nid aeth pennau neb o Frynrefail i lawr, ac oherwydd hyn daeth ail gôl Brynrefail yn ystod eiliadau olaf y gêm, diolch i Ian Darwood!

Yn ystod yr amser ychwanegol roedd Brynrefail yn rheoli'r gêm. Roedd pawb yn dechrau blino, ond gyda dau funud i fynd tan ddiwedd yr amser ychwanegol, sgoriodd James Bell y drydedd gôl o gic cornel Guto Griffiths.

Y sgôr terfynol oedd Ysgol Brynrefail 3, Ysgol y Moelwyn 2. Mae pawb yn edrych ymlaen at y gêm derfynol.

Brawd Mawr Ysgol Brynrefail!


Ydych chi'n gwyllo *Big Brother* ar y teledu? Oeddech chi'n gwybod fod gennym ni ein 'Brawd Mawr' ein hunain yn Ysgol Brynrefail erbyn hyn?

Yn dilyn sawl achos o fandaliaeth dros y blynyddoedd mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn 9 camera CCTV ac wedi eu lleoli o gwmpas yr ysgol. Gobeithiwn y byddan nhw'n gymorth i atal y lladrad a'r fandaleiddio sy'n golygu colled ariannol fawr i'r ysgol. Mae'r camerau yn recordio drwy'r dydd, bob dydd, felly cofiwch - mae'r brawd mawr yn eich gwyllo chi!

Cafwyd cyfraniad at yr achos gan Gyfeillion yr Ysgol a chan ddisgyblion y chweched dosbarth a ddewisodd aros dros nos er mwyn dangos fod yna ddigybllion cyfrifol a chall yn yr ardal. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd. Rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniadau'n fawr.



Y criw Arlwyio.



Ffarwél gyfeillion!



Y genod yn mwynhau.




Yr hogiau!

Enillwyr Clwb Cant

Ionawr 2008: 1. Malcolm Jones, Bryn Dwywnwen, Pontrug; 2. James Bell, Tŷ Newydd, Bethel; 3. Ann P. Jones, Nant, Llanrug.

Chwefror 2008: 1. Wendy Roberts, Plas Eifion, Y Felinheli; 2. Morfudd Thomas, Cilfynydd, Bethel; 3. Eirwen Williams, Ysgol Brynrefail.

Mawrth 2008: 1. Bethan W. Jones, Efail Newydd, Llanrug; 2. K. Sullens, 3 Stryd Cefn Faes, Bethesda; 3. Sian Harris, Ysgol Brynrefail.



Aled, Katy, Lois, Sasha ac Elin.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556



Mrs P. James, Llanrug, a Mrs Kitty Roberts, Caernarfon, cyn-lywyddion Sefydliad y Merched Waunfawr.



Llywydd y Sir yn torri'r gacen ben-blwydd gyda Llywydd Sefydliad Waunfawr.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ar 7 Mai aeth yr aelodau i Blas Tirion, Llanrug, i ddathlu pen-blwydd y Sefydliad yn 80 oed. Croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Margaret Lloyd Jones, Llywydd y Sir; Mrs Jacqui Thomas, Ysgrifennydd y Sir; Mrs Kitty Roberts, Caernarfon a Mrs P. James, Llanrug, cyn-lywyddion y Sefydliad, i'r te pen-blwydd. Rhoddodd Catherine Jones ychydig o hanes y Sefydliad ers ei sefydlu ym mis Mai 1928. Diolchodd Llywydd y Sir, Mrs K. Roberts a Mrs P. James am y gwahoddiad i'r dathliad.

Diolchodd y Llywydd i Cerid McKinnon am y te hyfryd yr oedd wedi ei baratoi ac hefyd i Rose Ann Hughes am y gacen ben-blwydd hardd a wnaeth ar gyfer yr achlysur. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn Festri Eglwys y Waun ar 4 Mehefin. Croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Kit Jones a Mrs Frances Jones i'r cyfarfod. Y wraig wadd oedd Mrs Sue Martin, Tegfan, Swyddog Prawf Adran

Caernarfon. Cafwyd hanes y Gwasanaeth Prawf o'i ddechreuad, gan mlynedd yn ôl, ganddi. Pawb wedi synnu fod cymaint o angen Swyddog Prawf mor bell yn ôl â hynny. Cafwyd ymateb da iawn gan yr aelodau. Enillwyd y raffl, wedi ei rhoi gan Mair Williams, gan Nancy Buckley.

Y mis nesaf, ar 3 Gorffennaf, bydd trip y Sefydliad yn mynd i Erddi Bodnant, gyda the i ddilyn yng Nghonwy.

Annwyl Gyd-Dderllenwyr

Yn y Waunfawr gall rhywun alw i gof lythyrdy a barbwr, dau gigydd, dau gapel ac un eglwys. Tim pêldroed: cangen o'r Aelwyd a'r Urdd a chymdeithas lenyddol Un chwarel (Parc) ac un gofaint; cwmni drama, becws a tacsis Non. Dau weinidog (yn raddedig o Rydychen) a bysus gwyn. Chwaraeon yng nghae'r ysgol a changen o'r sgowts. Dwy siop sgolodion, rasmus cŵn defaid y Bettws, bandohôp a nyrs yr ardal. Seindorf arian yn cynnwys chwarelwyr, ffermwyr, un athro ac un gofaint, llafna o'r ysgol ramadeg a'r ysgol uwchradd, rhywun yn gweithio ar drên bach yr Wyddfa a'r arweinydd, Dafydd Trefor, yr hwn na chafodd erioedd ddiwrnod o addysg ond yn feistr trylwyr ar bob math o gerddoriaeth. Ac un heddwys i gadw trefn ar bethau.

J. RHYD HUMPHREYS.

ANFONWN ein llongyfarchiadau gwresog at ddwy o Stad Tref Eilian fu'n dathlu cyrraedd eu pen-blwydd ar y dydd cyntaf o fis Mehefin. Bu Mrs Kitt Jones yn dathlu cyrraedd ei phedwar ugain oed, a Miss Katie Roberts yn dathlu cyrraedd ei naw deg saith mlwydd oed. Dymuniadau gorau i'r ddwy ohonoch.

CHWARAE PIANO.

Llongyfarchiadau i Megan Lowe, Ger y Ffynnon, ar ei llwyddiant yn arholiad chwarae'r piano Gradd 2. Da iawn chdi a dal ati.

PRIODAS. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da am briodas hapus i Bethan Wyn, Y Frenni, ac Ian Speakman o Lundain, a briodwyd yn Eglwys y Waun. Y Barchedig Nan Wyn a wasanaethodd y briodas gyda Osian Gwynedd wrth yr organ. Yn

ystod y gwasanaeth cafwyd unawd gan Elliw Iwan a darlleniad gan Llŷr Ifans. Bydd y cwpwl ifanc yn cartrefu yng Nghaerdydd.

LLAWENYDD A THRISTWCH.

Daeth llawenydd a thristwch i fywyd teulu bach o'r pentref yn ystod y mis. I Dylan a Bethan Roberts, Ael-y-Bryn daeth genedigaeu eu mab bychan, Daniel Celt, a llawenydd iddynt ac i Erin ac Alaw Non, ei ddwy chwaer, ac i Christina ac Arnold Roberts, Bryn Golau, yn daid a nain unwaith eto. Ond daeth marwolaeth sydyn mam Dylan â thristwch a phrofedigaeth fawr iddynt, colli mam a nain annwyl.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Ceryl a Chris, Coed Aeron, ar enedigaeth mab bach, Aled, brawd bach i Cara a Llio.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Jane Roberts, Glaslyn, Stad Bro Waun, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yn sydyn.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mr Dick Rowlands, Bryn Golau, adref o'r ysbty gan ddymuno gwellhad buan iddo, ac hefyd i Iwan Llwyd, mab bach Nia a Garry

Griffith, Dolydd, Stad Tŷ Hen, wedi iddo gael tynnu ei donsiliau yn yr ysbty.

DYMUNWN adferiad buan i Aled Taylor, Baladeulyn, Stad Dôl Erddi, wedi iddo gael anaf i'w goes wrth ei waith ar y mynyddoedd. Hefyd i Rosie Brown, 2 Ael y Bryn, wedi iddi frifo'i braich.

ANFONWN ein cofion at Mr Alun 'Mabon' Williams, sydd wedi mynd i aros i Gartref Nyrsio Cerrig yr Afon am gyfnod.

DIOLCH. Hoffai Gwion (Bryn Eithin gynt) ddiolch i bawb am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn hanner cant. Llauer o ddiolch, hefyd, i bawb yn Antur Waunfawr am drefnu parti ac adloniant iddo yn y 'Sgubor Grefftau.

Dymunwn ninnau i gyd ben-blwydd hapus iti, Gwion.

RHIFYN NESAF YR ECO. Daw rhifyn nesaf o'r Eco o'r wasg ar 4 Medi. Felly, os gwelwch yn dda, dowch â'ch newyddion imi yn ystod y deufis nesaf.

Dymunwn wyliau haf da i bawb, gan obeithio y cawn dywydd heulog braf.



PENTREF Y WAUN YN NEWID.

Arhosodd llauer o bobl ar ochr y ffordd i wyluo'r peiriant mawr melyn wrth ei waith yn tynnu un o adeiladau nodedig y pentref i lawr. Erbyn hyn does dim o'r hen garej Whiteways ar ôl, ond mae llauer o atgofion gan y rhai fu'n gysylltiedig â'r adeilad am flynyddoedd lawer.

ARVONIA

CONCEPT RISM cpl

- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonix.co.uk
Gwefan: www.arvonix.co.uk

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Dewis eang o Wyliau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc –
allwch chi fforddio prynu o batrymau?

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

**GLANHAU CARPEDI
GYDA STIMVAK**

YN gam neu'n gymwys, adeilad ac nid person yw testun y portread hwn.

Mae rheswm hanesyddol pam dewis Capel Hebron ar lethrau Gwaun Cwm Brwynog yn destun canys ar nos Lun, 7 Gorffennaf 1958, cynhaliwyd Cyfarfod Datgorffori'r eglwys ar lethrau'r Wyddfa, sef union hanner can mlynedd yn ôl, a chyhoeddwyd llun o'r achlysur yn *Y Cymro*.

Ni wn ai gwir y stori ond dywedir i'r gwasanaeth olaf hwn gael ei gynnal y tu allan i'r capel... am fod rhywun wedi colli gorriad y drws! Diolch i'r drefn ei bod hi'n noson hyfryd o heulwen haf.

Erbyn cyhoeddi adroddiad blynyddol y Capel yn 1945, roedd y cyn-Weinidog, y Parchedig R. Bryn Williams, wedi symud o Lanberis i Rhuthun i weinidogaethu, ond gofodd anfon y deyrnged isod i'r adroddiad hwnnw, a diolch am hynny. Heb os roedd ganddo le annwyl tros ben yn ei galon i'r eglwys a'r aelodau:

'Un o fannau anwylaf y ddaear i mi bellach fydd Gwaun Cwm Brwynog... hen gwm annwyl, diolch am gyfoeth dy hedd. Diolch hefyd am groeso Cymraeg eich aelwydydd ac am addoli syml yn Hebron. Bychan oedd y rhif, dim ond rhyw ugain, ond yr oedd yno Gymdeithas gref. Ni fedrwyd cynnal ond ychydig o gyfarfodydd ac ni ddigwyddodd llawer o bethau pwysig yn ystod y cyfnod, ond yr oedd yno eglwys i Grist. Mae i'r eglwys ei thraddodiad gwych ond daeth y dyddiau chwith. Beth am y dyfodol tybed?...

Oni ddaw'r bobl yn ôl i'r cwm, efallai y daw eglwys Hebron i derfyn ei hoes wedi cyflawni ei chenhadaeth. Diolch i chwi sydd yn weddill am eich ffyddlondeb a'ch aberth ynglŷn â'r capel bach. Efallai caf innau ddod eto rhyw Sul yn yr haf i ddringo'r lethrau a phregethu drwy'r dydd yn Hebron yng Ngwaun Cwm Brwynog...'

Ond nid felly y bu.

Mae rhai dyddiadau o bwys ynghlwm â Hebron. Yn ôl William Hopley, fe adeiladwyd y capel ym 1833, a sefydlwyd yr eglwys yn Hebron ym 1859. Daeth y Gweinidog cyntaf yno ym 1870, sef y Parchedig J. O. Jones.

O gymharu nifer yr aelodau ym 1887 (penllanw yr achos) â 1958 (y flwyddyn derfynol), sylwer fod cynifer â hanner cant o oedolion ac wyth ar hugain o blant yn 1887, ond pymtheg o oedolion a dau o blant yn unig ym 1958, a'r teuluoedd hynny ar fin symud i fyw i Lanberis.

Wrth gwrs, roedd canu cynulleidfaol Hebron yn adnabyddus tu hwnt i ffiniau Cwm Brwynog a'r ddawn ddiamheuol yn denu edmygedd

Capel Hebron, Gwaun Cwm Brwynog



sawl dieithryn, a hynny oherwydd gallu Arweinydd y Gân yn y capel bach, sef Hugh Williams, Bryn Coch.

Rhaid cofnodi fod y Parchedig John Roberts (Ieuan Gwyllt), pan yn Weinidog y Capel Coch, Llanberis, yn defnyddio dawn gerddorol cynulleidfa Capel Hebron i ymarfer rhai o'i donau cyn eu cyhoeddi.

Mesurai'r capel wyth llath wrth saith llath ac, yn y dyddiau cynnar, meinciau culion oedd o'i fewn ond, ym 1850, bu cryn atgyweirio a rhoddwyd un ar hugain o seddau cyfforddus i mewn fel y gallai bron i gant o gynulleidfa eistedd o'i fewn, gyda cherrig melin ar y llawr ac ynghrog o'r nenfwd yr oedd seren brês a chwe channwyll.

Chwarae teg i bobl dda Cwm Brwynog, yr oedd pob ceiniog o gost adeiladu'r capel wedi ei thalu a dim dyled ar ddydd yr agoriad. Tybed ai Hebron oedd yr addoldy uchaf yng Nghymru, gan ei fod naw can trofedd uwchlaw'r môr?

Mae cip sydyn ar rai o ddogfennau'r capel yn hynod o ddifyr:

21 Mawrth 1886: Yr hin yn galed. Neb yn y capel.

15 Awst 1886: Y Parchedig J. O. Jones yn cerdded i Hebron ond ni ddaeth neb yno oherwydd prysurdeb gyda'r gwair.

6 Ionawr 1889: Teimlir boddhad mawr gyda'r 'harmonium' newydd ddaeth yma ddydd Mercher.

15 Ebrill 1894: Y bregeth ar fore'r Sul oherwydd prysurdeb gyda'r defaid (yn y prynhawn yr arferid cynnal oedfaon).

7 Mehefin 1907: Cyfarfod pregethu am 10 a 6 yr hwyr. Y capel yn orlawn ac amryw allan yn yr awyr agored. Dr John Williams, Brynsiencyn, yn ôl y sôn 'wedi pregethu'n rymus ar "Wele yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo..."'

1911: Casglwyd y swm o bum swllt ar hugain i brynu 'modulator' at wasanaeth y Band of Hope.

1920: Angen atgyweirio'r Capel a'r Tŷ Capel. Rhoddwyd y gwaith i Thomas Pritchard, Llanberis.

1925: Y boblogaeth yn dal i leihau. Dim ond deg teulu yn mynychu'r oedfaon ond erys rhif yr oedolion yn 30 gyda 14 o blant.

Atgyweirio cloc y capel am ddau swllt a naw ceiniog.

1928: Teulu Hafotty Newydd yn symud i fyw i'r Cwrt Isaf, Cwm Pennant.

Ysgoldy'r Waun oedd yr enw gwreiddiol ar y capel nes i John Jones, Talysarn, annog y bobl i newid ei enw i Hebron.

Heb os, y gŵr a gyfrannodd

yn hael iawn i holl weithgareddau Hebron dros nifer o flynyddoedd oedd Henry Charles Williams, Llwyn Celyn. Roedd yn chwarae'r harmonium yn ddeg oed a bu'n flaenor ac organydd am ddeugain mlynedd.

Mae un stori a glywais yn werth ei chofnodi. Ymddengys fod un prynhawn Sul mor boeth fel y penderfynwyd gadael y drws allan yn agored. Er mawr syndod i'r gynulleidfa, daeth ceffyl Cae Newydd, oedd yn pori gerllaw, i mewn drwy'r drws ac er sawl ymgais i'w fagio allan methiant fu'r ymdrechion. Doedd dim amdani felly ond tywysu'r ceffyl i lawr i'r Sêr Fawr a'i droi rownd yn y fan honno i'w arwain allan drachefn. Mae'n amheus gen i a fu unrhyw geffyl arall mewn Sêr Fawr yng Nghymru!

Ar nos Lun, 7 Gorffennaf 1958, y cynhaliwyd Cyfarfod Datgorffori'r eglwys ar lethrau'r Wyddfa. Ar noson hynod o braf roedd nifer dda o aelodau a chyn-aelodau wedi dod ynghyd ac, yn ôl y cofnodion, emyn enwog Williams Pantycelyn – emyn addas o bosib – oedd yr emyn olaf i'w ganu gan gynulleidfa Hebron:

'Pam y caiff bwystfilod rheibus Dorri'r egin mân i lawr?'

Ym mis Gorffennaf 1986 rhoddwyd Stad y Faenol ar werth ac, ymysg yr eiddo ar werth yr oedd Capel a Thŷ Capel Hebron. Dyma ddisgrifiad swyddogion y Stad o 'Lot No.125':

'Substantial stone and slate building formerly the Capel Hebron and ideal for a climbing hut or bunk house.'

A dyna swm a sylwedd aberth ddrud ac ymroddiad hen deuluoedd Cwm Brwynog. 'Bunk House!' Beth ddywedai y Parch J. W. Jones, Conwy, a arferai ddod i Hebron yn gyson, am y fath ddisgrifiad, ysgwn i?

Heddiw mae'r Tŷ Capel wedi'i ddymchwel yn llwyr a'r capel bron â bod yn adfail yn ogystal. Er ymdrechion rhai ohonom yn ceisio cael y mudiad 'CADW' i gymryd gofal ohono cyn iddo fynd i'w stad bresennol, methiant fu ein hymdrechion.

I mi, o leiaf, wrth stelcian ger yr adfail heddiw mae'n anodd iawn anghofio hen deuluoedd y Waun a gyfrannodd eu ceiniogau prin i'w godi a'i dderbyn, nid yn unig yn fan i fwynhau sawl oedfa wlithog, ond hefyd yn aelwyd groesawgar i holl weithgareddau'r gymuned er gwaethaf y moelni brith.

Deallaf na fydd unrhyw gyfarfod swyddogol i ddathlu'r hanner can mlynedd ar 7 Gorffennaf eleni.

ROL WILLIAMS

Am ragor o hanes Hebron, gweler y gyfrol gan Rol Williams: Pobol Tu Ucha'r Giât.

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

O SIAMBAR SELWYN

Y penwythnos hwn mi fydd yna bennod arall o fy mywyd i yn dod i ben. Pennod fer o dair blynedd mae'n wir, ond pennod arbennig o brysur a chyffrous. Erbyn tua pedwar o'r gloch brynhawn Sadwrn, 28 Mehefin, mi fydda i wedi cael y fraint o orseddu fy olynydd fel Archdderwydd Cymru, ac wedi trosglwyddo llywodraeth Gorsedd y Beirdd i ddwylo y Prifardd Dic Jones.

Mae fy rhagflaenydd, y Cyn-Archdderwydd Robyn Llŷn yn datgan yn ei lyfr diddorol *A Fu Heddwch?* mai 'yr anrhydedd uchaf y gall Cymru ei rhoi i neb o'i phlant ydi ei ethol yn Archdderwydd'. Wrth edrych yn ôl dros y tair blynedd, mi alla innau ddeud â fy llaw ar fy nwy fronneg Ardderwyddol mai dyma'r anrhydedd fwya a ddaeth i fy rhan innau hefyd. A mawr yw fy niolch am y gefnogaeth a gefais, nid yn unig gan y Gorseddogion, ond hefyd gan eisteddfodwyr a chyfeillion yn lleol a led-led Cymru, o dderbyn eu croeso mewn nifer o eisteddfodau a gwahanol gymdeithasau. Gobeithio y bydd y tywydd yn ffafriol fel y medrwn gael y seremonïau ar Grŵn y Bala yn wyneb haul llygad goleuni.

Un o'r eisteddfodau cynta y ces i wahoddiad iddi fel Archdderwydd oedd Eisteddfod Powys, a gynhaliwyd yn y flwyddyn 2005 yn y Bala. Roedd o'n achlysur arbennig gan fod Gorsedd Powys yn gorseddu Derwydd Gweinyddol newydd i fod yn y swydd am dair blynedd. Gan nad oedd y tywydd yn caniatáu i gynnal y seremoni yng nghylch yr Orsedd ar y Grŵn, fe'i cynhaliwyd yn Ysgol y Berwyn. A dyna sut y cefais i reid mewn trelar drwy strydoedd y Bala. Fe drefnwyd i'r Derwydd Etholedig eistedd ar y tractor gyda'r dreifar, ac i'r Derwydd Gweinyddol, y Cofiadur a minnau fod yn y trelar. Profiad arbennig a chofiadwy, a Stryd Fawr y Bala yn llawn o wylwyr gyda'u camerâu.

Yn ôl swyddogion yr eisteddfod, roedd hwn yn achlysur arbennig am ddau reswm. Dyma'r tro cynta i Archdderwydd Cymru fod yn bresennol ar achlysur urddo Derwydd Gweinyddol Eisteddfod Powys, a dyma'r tro cynta i un gael ei gludo drwy strydoedd y Bala ar drelar.

Mae gan fy olynydd, Dic yr Hendre, atgofion melys am y Bala hefyd. Yno yr enillodd o ei gadair gynta, yn Eisteddfod yr Urdd 1954. Yn 1967, pan gynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala fe dderbyniwyd Dic i'r Orsedd, gan iddo ennill y Gadair Genedlaethol gyda'i awdl

'Cynhaeaf' y flwyddyn cynt yn Aberafan. A'r penwythnos yma fe gaiff ei orseddu yn Archdderwydd Cymru, a hynny unwaith eto yn y Bala. Rwy'n sicr y bydd gan Dic le cynnes iawn yn ei galon tuag at y Bala dirion deg.

Mae gan holl aelodau'r Orsedd (tua 1,700 ohonom) enwau barddol. Ambell un yn hynod o ddiddorol, rhai hyd yn oed yn ddoniol, ond y mwyafrif yn cysylltu un â'i ardal enedigol. Enw ar fferm Dic ydi'r Hendre felly, yn syml iawn, yr enw barddol a fabwysiadodd oedd Dic yr Hendre. Fo ydi'r ffermwr cynta i gael yr anrhydedd o fod yn Archdderwydd Cymru, a fo fydd y degfed ar hugain. Mae'r nifer fwya ohonyn nhw wedi bod yn weinidogion, cafodd tri cyfreithiwr yr anrhydedd a phum athro, a rŵan Dic, y ffermwr cynta.

Cyfeiriais uchod at lyfr fy rhagflaenydd, Robyn Llŷn, Cyfreithiwr yr Orsedd, sef *A Fu Heddwch?* sy'n sôn am y dagreuol a'r doniol yn hanes yr Orsedd. Fel y dywedodd yr Athro Gwyn Thomas yn ei ragair, 'Dyma i ni sgrepan o chwedlau difyr a doniol a dadlennol, fydd at ddant pwy bynnag sydd â rhywbeth i'w ddweud wrth yr Orsedd a'r Eisteddfod.'

Robyn ddychrynodd fi pan ddywedodd, 'Dy deitl di ar ôl iti orffen dy dymor fel Archdderwydd fydd, "Archdderwydd Emeritws Selwyn Iolen" fel yr holl Archdderwyddon a fu o dy flaen di.' Na dim diolch, Robyn. Dwi wedi arfer erbyn hyn (a nhafod yn fy moch) â'r Hybarch, ac fe dynnwyd coes Myra sawl tro drwy ei chyfarch fel 'Mrs Arch'.

Y wasg Seisnig, gan gynnwys y *Western Mail*, yn rhoi enw newydd sbon i mi, sef 'Mr Iolen'. A diolch bod rhai yn parhau i gyfeirio'n barchus ata i fel, Mr Selwyn Griffith. Do, dwi wedi cawl sawl teitl yn ystod y tair blynedd diwetha 'ma. Ond yr un sy'n dal i 'mhlesio i, ac wedi gwneud hynny dros y blynnyddoedd, ydi cyn-ddisgybl i mi yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis, sef Nigel. Mi fydda i yn ei weld o ar y stryd yng Nghaernarfon yn aml, a'i gyfarchion bob tro fydd, 'S'mai, Sel?'

Na, wyr Nigel ddim fod y ffasiwn beth mewn bod â 'Hybarch Archdderwydd' ac yn sicr chlywodd o ddim am yr 'Emeritws', a fuo na'r un 'Mr Iolen' yn ei ddysgu o yn Ysgol Dolbadarn flynyddoedd yn ôl chwaith.

Ond fydd o byth yn fy mhasio i heb ei gyfarchiad arferol, 'S'mai, Sel.'

Gwyn ei fyd o.

Cyfle i fwrw'ch bol am ddyfodol Gwynedd

Bydd cynllun yn cael ei gyhoeddi'r wythnos hon sy'n disgrifio'r prif faterion sydd angen eu cyflawni er mwyn gwneud Gwynedd yn lle gwell i fyw.

Mae dogfen drafod Strategaeth Gymunedol Gwynedd wedi cael ei llunio gan yr asiantaethau a'r mudiadau sy'n darparu pob math o wasanaethau cyhoeddus yng Ngwynedd. Mae'r grŵp yma o gyrff cyhoeddus, a elwir yn Bartneriaeth Gwynedd ar y Cyd, yn awyddus iawn i glywed eich barn chi ar yr hyn maent yn ei gynnig er mwyn gwneud Gwynedd yn lle gwell i fyw a gweithio.

Nod y ddogfen hon yw gosod cyfeiriad a chanllawiau cadarn ar gyfer gwella ansawdd bywyd yng Ngwynedd ar sail blaenoriaethau cytûn a fydd yn arwain at gydweithio gwirioneddol ar draws cyrff y Sir. Mae'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer cydweithio i'r dyfodol yn cynnwys prosiect i ail fodelu gwasanaethau iechyd a gofal yn y

gymuned a phrosiect i leihau ôl-troed carbon Gwynedd.

Dywedodd Aneurin Phillips, Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ac aelod o'r Bwrdd Partneriaeth:

'Mae gwaith da eisoes wedi ei gyflawni wrth i amrywiaeth o gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i sicrhau gwasanaethau cynhwysfawr a gwell i drigolion Gwynedd, ac rydym yn awyddus i gryfhau'r cydweithio yma i'r dyfodol.

'Y Strategaeth Gymunedol newydd fydd yn gosod y cyddestun a'r cyfeiriad ar gyfer gwaith Gwynedd ar y Cyd, a bydd hyn yn golygu cydweithio ar draws ffiniau'r gwahanol gyrff er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwell gwasanaeth i bobl leol.'

Ychwanegodd Bethan Russell Owen, Prif Weithredwr Mantell Gwynedd, sydd hefyd wedi bod yn aelod hir dymor o'r Bartneriaeth:

'Mae hwn yn gyfnod cyffrous a heriol iawn gan ein bod ar drothwy cyfnod newydd yma yng Ngwynedd ac mae'n bwysig ein bod yn gwneud y gorau gallwn ni efo'r adnoddau sydd ar gael, a rhoi arweiniad clir i'r sawl sy'n darparu gwasanaethau yng Ngwynedd ar gyfer gwneud hynny.'

Hon yw'r ail Strategaeth Gymunedol i'w chyhoeddi yn y Sir ac er mwyn ceisio cael barn a gwybodaeth bellach gan drigolion Gwynedd, cynhelir sesiynau ar draws Gwynedd yn ystod yr wythnosau nesaf. I ganfod beth sydd ymlaen yn eich ardal chi cysylltwch â Thim Gwynedd ar y Cyd ar (01286) 679004.

Os nad ydych am fynychu cyfarfod gallwch ddarllen ac ymateb i'r ddogfen drwy ymweld â gwefan Gwynedd ar y Cyd:

www.gwyneddarycyd.org.uk neu gallwch weld copi yn eich llyfrgell leol neu drwy gysylltu â Thim Gwynedd ar y Cyd ar y rhif ffôn uchod, neu e-bost: gwyneddarycyd@gwynedd.gov.uk

DRAENOG

Pwy andros andeineidi?

Pwy ydoedd o? Dyna sy'n dew ar dafoda' pobol clodwiw Bryn refa! Druan bach! Wedi mynd i Gaernarfon yr oedd o! Heb ddallt Sa'snag! Dallt Cymra'g yn iawn! Iaith anodd drybeilid ydi Shaeshonag, hyd yn oed mewn lle pellennig fel tre'r mawreddog gastall. Yno ceid gwaith peintio, cynnal a chadw megis, a rhyw duedd dwl i osod arwyddion wrth y gwaith gorffenedig, yn yr iaith feinia' posibl, sef 'Weat pênt!' ar seddi cyhoeddus, a beintiwyd y bora hwnnw, yn ystod diwrnod heulog tra ysblennydd! Do! do! mi eisteddodd M! Mymryn o seibiant heb y Musus! Dyna oedd ei angan arno! M druan! Ei Fusus! Pan ddaeth hitha' ato, dyma hi'n mynd yn wyllt gynddeiriog. Grogan, a phopath! Ei gŵr, welwch chwi, wedi ista ar sedd gyhoeddus hefo arwydd 'Weat pênt!' arni. Dim Cymra'g dalltwch chwi. Ista fuaswn inna! Cweit reit hefyd Gymro bychan. Saf dy dir was! Ond dyma hi'n ei gwylltinab yn codi ei phriod annw'l gerfydd ei gorn gwddf, ac yn ei ysgwyd fel petae fo'n geiliog, a'i dra'd oddi tano'n chwipio'r ddaear, hyd nes y sylweddolodd meiledi nad oedd arlliw o'r paent ar waelod tin llodra, a chôt hirllaes ei gôt. Mi roedd y sedd wedi ei pheintio ers flwyddyn diwetha, a'r arwydd uniaith Saesneg heb ei dynnu yma'th! Hen arwydd; hen boen di-angenrhaidd, ac yn gwbwl uffernol drist yr hen ddiffyg o beidio rhoi sylw byw i'r Gymra'g, a cheisio bywhau iaith sy'n fwy o Ladin farw na dim byd arall, a hynny drwy ganiatâd Cyngor sy'n honni, ac yn llwyr daeru mai Gwynedd ydy' cadernid yr iaith Gymra'g!

DRAENOG

Rhyfeddod o beth ydyw gardd!

Ers tro byd ni fu taw ar H sy'n byw'n Waunfawr. Bob tro y byddai'r teulu'n galw draw i'w gweld yr un ydoedd y gwyn byddarol, 'Gardd llawn chwyn sy' gen i!' Un diwrnod dyma H yn rhuthro o'r ardd at y teliffon, ac yn rhoi caniad i'w merch sy'n byw yng Nghwm y Glo. 'Tyrd draw Meirwen! Mae'r ardd 'ma wedi dechra ffwndro!' Aeth ei merch draw at ei mham! 'Weli di,' ebe S wrthi, 'Fan 'ma! Planhigion hefo bloda' gwynion!' Gwenu wnaeth ei mherch! Yn ystod y gwanwyn hwnnw, a'i mham wedi mynd am y diwrnod i Landudno, mi roedd y ferch wedi bod wrthi'n plannu hada tatws yn yr ardd!

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

LLONGYFARCHIADAU i Mefus a Stephen Edwards, Llanfairpwll ar enedigaeth mab, Cain Dafydd. Wyr i Gwen ac Oliver Edwards, Llanberis, ac Ann a Dei Fôn Williams, Gerlan, Bethesda.

LLONGYFARCHIADAU i Tomos Dafydd Edwards o'r Barri, mab Ian a Rhian Edwards, ar gael ei ddewis i chwarae criced i Gymru dan un ar ddeg oed. Mae yn ŵyr i Gwen ac Oliver, Llanberis.

CÔR MEIBION. Fe gynhaliodd y Côr gyngerdd llwyddiannus iawn yn un o gapeli mawr Llandudno ar 27 Mai.

Cafodd yr unawdwraig oedd yn cynorthwyo'r Côr, Ann Williams o Lithfaen, groeso canmoladwy iawn.

YSGOL DOLBADARN

CADW'N IACH / CADW'N

DDIOGEL. Cyn hanner tymor bu disgyblion Blwyddyn 6 yn derbyn hyfforddiant ar sut i reidio beic yn ddiogel ar y ffordd. *Bikeability* yw'r enw ar y Cynllun hwn sy'n cael ei dreialu yn nalgylch Brynrefail. Roedd y plant i gyd wedi mwynhau'r seisynau, ond wedi gorfod gweithio'n galed hefyd. Braff yw nodi fod pob un wedi llwyddo yn y prawf ar y diwedd.

WYTHNOS GENEDLAETHOL CERDDED I'R YSGOL. Roedd 19-23 Mai yn Wythnos Genedlaethol Cerdded i'r Ysgol, ac i lansi'r digwyddiad trefnwyd i bob plentyn fynd ar daith gerdded leol y dydd Gwener cynt. Cafwyd prynhawn difyr dros ben ac rydym yn ddiolchgar i'r rhieni a ymunodd ar y teithiau hyn. Braff yw nodi fod mwyafrif y plant wedi ymateb i'r her i gerdded i'r ysgol gydol yr wythnos. Dal ati ydy'r gamp rŵan.

NOFWYR CRYF. Bu nifer o'r disgyblion yn cystadlu yn Gala Nofio Arfon dydd Gwener cyn hanner tymor, gan dderbyn sawl gwobr. Da iawn chi i gyd am eich holl waith caled.

GARDDWYR DOLBADARN.


Treuliodd disgyblion Derbyn a Blwyddyn 1 fore difyr iawn yng Nghanolfan Seiont ym Mhontrug cyn hanner tymor fel rhan o waith y tymor. Cawsant i gyd gyfle i blannu planhigyn a dod ag ef efo

nhw adref. Roedd hyn yn brofiad gwerth chweil ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r staff am eu hamser a'u croeso.

TWRNAMENT RYGBI ARFON. Aeth tîm o ddisgyblion Blwyddyn 6 i gystadlu yn y twrnament uchod, a gynhaliwyd ar gaeau Clwb Rygbi Caernarfon yn ddiweddar. Bu'r criw yn chwarae'n galed iawn gan ennill a cholli gemau. Llongyfarchiadau mawr iddynt a diolch i Mr Alaw Williams am eu hyfforddi mor dda.

DRINGO I'R BRIG. Yn ddiweddar bu Nathan Pycroft o Flwyddyn 4 yn cystadlu mewn cystadleuaeth ddringo i ieuencid. Llwyddodd i ddod yn gydradd gyntaf yn rownd gogledd Cymru ac aeth i lawr i'r de i gystadlu ar lefel Cymru gyfan, gan ddod yn bedwerydd. Roedd hyn yn gamp go iawn. Llongyfarchiadau mawr i ti.

RAS HWYD. Bu'n rhaid gohirio



Nathan a'i dystysgrif.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partiön rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwff mewn
rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
wefan: www.ydyncig.co.uk

ein ras hwyaid flynyddol oherwydd tywydd anffafriol cyn hanner tymor (gormod o law hyd yn oed i hwyaid!), ond llwyddwyd i'w chynnal yr wythnos ar ôl dod yn ôl er bod y dŵr yn yr afon ychydig yn isel erbyn hynny. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Yr enillwyr oedd: 1 Nigel Davison; 2. Cledwyn Jones; 3.

Corina Harding. Cofich ddod i'n Ffair Haf yn y Ganolfan ar nos lau 10 Gorffennaf.



Rhai o'r beicwyr yn paratoi ar gyfer mynd ar y stryd efo'u hyfforddwyr.



Y plant hynaf yn cael seibiant ar cyrion Cwm Brwynog.



Y Tîm Rygbi. Roedd y genethod yn tacio'n galed, yn ôl pob sôn.



Y babanod yn cychwyn ar eu taith gerdded ar hyd y trac beics am Gwm Y Glo.

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979

620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisïau cystadleuol

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL GYMUNED

Gwersi Dawnsio. Dechreuodd plant CA2 gyfres o wersi dan arweiniad Mrs Olwen Green a fydd yn parhau am chwe wythnos bob bore dydd Mercher yn y Neuadd.

Twrnaint Tennis. Cymerodd plant CA2 ran yn y Twrnaint Tennis yn y Ganolfan Tennis yng Nghaernarfon ddydd Mawrth, 10 Mehefin. Llongyfarchiadau i dîm y bechgyn am ddod yn ail ac i bawb arall am wneud eu gorau.

Mabolgampau'r Urdd. Cynhaliwyd y Mabolgampau ar gaeau Ysgol Syr Hugh Owen nos Fercher, 11 Mehefin. Llongyfarchiadau i Shophie Hughes, Bl.4 ar ddod yn ail yn y ras redeg, a bob lwc iddi wrth gystadlu ym Mabolgampau'r Sir. Diolch i bawb arall am gymryd rhan gan wneud eu gorau glas. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'r rhieni am gludo'r plant a gofalu amdanynt yn ystod y gyda'r nos.

Symud Dosbarthiadau. Roedd dydd lau, 12 Mehefin, yn ddiwrnod prysur iawn yn yr ysgol, gyda phlant Bl.6 yn mynd ar ymweliad ag Ysgol Brynrefail a phawb arall yn symud i'r dosbarth y byddant ynddo ym mis Medi. Arhosodd y dosbarth Meithrin yma drwy'r dydd a chael cyfle i flasio cinio ysgol, a chroesawyd wyth o'r plant bach a fydd yn cychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf ym mis Medi o 9 tan 11 o'r gloch. Roedd pawb i'w weld wedi mwynhau'r profiadau yma yn fawr iawn.

Dyddiadau i'w Cofio:

Nos Sul, 6 Gorffennaf: Bydd rhai o blant yr Ysgol yn cymryd rhan yn y Gymanfa i gloi gweithgareddau'r Carnifal yn Eglwys Santes Helen. 7-11 Gorffennaf: Ffair Lyfrau'r Ysgol.

Dydd lau, 10 Gorffennaf: Trip Ysgol i'r Gelli Gyffwrdd.

Dydd Mawrth, 15 Gorffennaf: Mabolgampau'r Ysgol am 1.15 o'r gloch. Mae croeso i unrhyw un alw draw i gae'r ysgol i gefnogi'r plant yn ystod y pawns.

Dydd Gwener, 18 Gorffennaf: Bydd yr ysgol yn cau am wyliau'r haf ac yn ailagor ddydd Mawrth, 2 Medi.

PWYLLGOR NEUADD GYMUNED. Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a'r enillwyr yw: Dafydd Williams, Meini Gleision, Brynrefail; Elin Glyn, Llain Gwta, Llanrug; Renée Morris, 2 Llys y Gwynt. Atgoffir chwi fod y Rhifau Ras Peli ar werth gn aelodau'r Pwyllgor am £1 y rhif. Y mae'r gwerthu yn argoeli'n dda a bydd gwobr deilwng i'r enillydd. Trefnir paned a chŵn poeth ar y noson, sef nos Wener, 11 Gorffennaf am 6.30 y.h. Y gweithgaredd nesaf fydd Noson Wasael ac Ocsiwn Addewidion ar 17 Rhagfyr.

PÊL BONWS LOTERI. Enillydd mis Mai oedd Elizabeth Jones, 17 Bryn Tirion, Llongyfarchiadau.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Cynhaliwyd Cymanfa y Methodistiaid bnawn Sul, 15 Mehefin yng Nghapel Ebeneser Caernarfon. Fe fwynhaodd pawb yr orig fywiog yng nghwmni

Edward Morus Jones a bu'r te parti amheuthun, a baratowyd gan aelodau Ebeneser, yn goron ar y cyfan. Diolch o galon am y croeso cynnes.

Derbyniodd y plant eu bathodynau am gasglu arian tuag at y Gymdeithas Dramor. Diolchir iddynt i gyd am gasglu yn anrhydeddus eto eleni a diolch i bawb a'u cefnogodd.

Bydd yr Ysgol Sul yn parhau tan 13 Gorffennaf ac yn cael seibiant dros y gwyliau. Byddwn yn ailgychwyn ar y Sul cyntaf wedi i'r ysgol ailagor, sef 7 Medi. Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni.

Gobeithir cynnal gweithgaredd nodedig at Apêl y Capel, ac mae croeso i rieni neu unrhyw un ymuno yn y gweithgaredd gydag aelodau ac athrawon yr Ysgol Sul. Bydd manylion pellach yn rhifyn Medi.

BWRDD Y CARNIFAL. Bydd bwrdd gwerthu er budd Apêl y Capel ar fuarth yr Ysgol Gymuned ar Sadwrn y Carnifal ar 5 Gorffennaf.

GWELLHAD. Da deall fod Mrs Annie Hughes, 11 Llys y Gwynt, yn gwella ar ôl ei arhosiad yn yr ysbyty. Dymuna ddiolch o galon i'w chymdogion, teulu a ffrindiau am eu caredigrwydd. Diolchir am yr ymweliadau, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Deallir fod Dafydd Morris, Cae'r Waun, wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar hefyd. Cofion gorau atoch, Dafydd, ac adferiad iechyd buan i chwithau.

Ein cofion gorau at eraill ohonoch hefyd sydd wedi bod yn sâl. Brysiwch wella i gyd.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys â theulu'r diweddar Huw Thomas, Bryn Gaer. Ein cydymdeimlad llwyrfa â Gwynfor, Jean ac â'r teulu oll.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir yr Eisteddfod eleni ym mis Tachwedd. Edrychir ymlaen at Eisteddfod lwyddiannus a bywiog fel y llynedd. Bydd manylion llawn yn rhifyn Medi.

Y CARNIFAL A'R GWEITHGAREDDAU – wythnos o fwrwm a chymdeithasu.

Llun, 30 Mehefin
Bingo yn Neuadd yr Eglwys.

Mawrth, 1 Gorffennaf
Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys.

Mercher, 2 Gorffennaf
Mabolgampau ar gae yr Ysgol Gymuned.

lau, 3 Gorffennaf
Disgo yn Neuadd yr Eglwys.

Gwener, 4 Gorffennaf
Helfa Drysor i gychwyn tu allan i'r Eglwys.

Sadwrn, 5 Gorffennaf
Y Carnifal – ar gae yr Ysgol Gymuned neu yn y Neuadd Gymuned os bydd y tywydd yn anffafriol.


Nos Sul, 6 Gorffennaf
I gloi yr wythnos cynhelir Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen.

BEICIO NODDEDIG – o Gastell Caerdydd i Gastell Caernarfon. Bydd Bedwyr a Dylan Edwin o'r pentref hwn, ynghyd â Keith o Gwm y Glo yn beicio o Gastell Caerdydd i Gastell Caernarfon ar 11 Awst a hynny i godi arian tuag elusennau sy'n agos iawn at eu calonau. Bydd Bedwyr yn beicio tuag at Ymchwil Cancr, Ysbyty Christie's, Manceinion, Dylan Edwin at Ymchwil Arennau, Ysbyty Gwynedd, a Keith at Clic-Sargent – sef Elusen Cancr Plant. Buasent yn hynod ddiolchgar o noddwyr o Fro'r Eco a thu hwnt.

Dymunir pob lwc i'r tri ar y fenter arbennig hon.

RHIFYN NESAF. Dalier Sylw – daw'r rhifyn nesaf o'r Eco allan ar 4 Medi. Defnydd i law felly erbyn 25 Awst.

PRIODAS RUDDDEM. Priodas Ruddem hapus i mam a dad, Ann a Dafydd, Sycharth, ar 27 Gorffennaf. Llauer o ddiolch a llauer o gariad oddi wrth Eurgain ac Ioan, Bedwyr a Lisa ac Osian a Sara. Sws fawr i Nain a Taid gan Gwydion Rhys. Mwynhewch y dathlu.



Aelodau o Ysgol Sul Bosra gyda'u tystysgrifau a'u bathodynau wedi eu casgliad anrhydeddus i'r Genhadaeth Dramor. Yn absenhol o'r llun mae Catrin Elen, Enlli, Ioan, Sean a Glesni.

Dylan Griffith

Trefnwr Ângladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Yn Gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys-
PENISARWAUN • DEINIOLLEN • LLANRUG A LLANBERIS

Ffoniwch Dylan (Llys)
ar 871833
Symudol-07778127394

Gwasanaeth Teimladwy
Urddasol a Phersonol
24 awr y dydd
Capel Gorffwys Preifet

Hefyd

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwrch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

Cydnabyddiaeth Ryngwladol i Fand Pres Ieuenctid Gwynedd a Môn

Mae Band Pres Ieuenctid Uwch Gwynedd a Môn wedi eu gwahodd i berfformio yng ngŵyl gerddoriaeth ieuenctid fwyar byd, Gŵyl Cerddoriaeth Ieuenctid Cenedlaethol, a gynhelir fis Gorffennaf eleni.

Bydd Band Pres Gwynedd a Môn, sy'n cael ei weinyddu gan Wasanaeth Ysgolion William Mathias ar ran Gynghorau Gwynedd a Môn, ac sy'n cynnwys aelodau o ysgolion uwchradd y ddwy sir, yn perfformio ochr yn ochr â 10,000 o gerddorion ifanc dawnus eraill yn yr Ŵyl.

Dros y blynyddoedd, mae'r Band Ieuenctid wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn nifer o gystadlaethau cenedlaethol, gan gyrraedd y brig yn 2007 wrth ennill ym Mhencampwriaeth Uwch Adran Bandiau Pres Prydain ym Manceinion. Mae Band Pres Gwynedd a Môn yn cael ei arwain gan Gwyn Evans ac fe'i cefnogir gan dîm o diwtoriaid teithiol Pres a Tharo ymroddedig.

Yr Ŵyl Cerddoriaeth Ieuenctid Cenedlaethol yw'r ŵyl fwyaf o'i bath yn y byd ac fe'i cynhelir yn Birmingham o 7-12 Gorffennaf. Bydd Band Ieuenctid Gwynedd a Môn yn perfformio yn Neuadd Symffoni, Birmingham ar ddydd Iau, 10 Gorffennaf.

Bydd y Band, sy'n cynnwys 38 o gerddorion ifanc rhwng 11



Band Pres Ieuenctid Gwynedd a Môn a fydd yn chwarae yng Ngŵyl Cerddoriaeth Ieuenctid Cenedlaethol.

a 19 oed, yn perfformio cerddoriaeth gan y cyfansoddwr, Peter Grahame, a threfniadau eraill gan eu harweinydd, Gwyn Evans. Mae'r gerddoriaeth mewn ffurf cyfres yn darlunio stori Branwen o'r Mabinogi.

Dywedodd Dennis Williams o Wasanaeth Ysgolion William Mathias:

'Bydd yr ŵyl yma, sydd o gydnabyddiaeth ryngwladol, yn gyfle arbennig i gerddorion ifanc ddod ynghyd i ddathlu'r amrywiaeth gwyb a'r safon anhygoel sy'n bodoli o fewn byd cerddoriaeth ieuenctid ym Mhrydain heddiw.'

Bydd yr ŵyl yn cynnwys amrywiaeth eang o gerddoriaeth, o fandiau roc, pop, grwpiau dinesig, corau, cerddorfeydd, bandiau pres,

grwpiau cerddoriaeth orchestras, bandiau jas a llawer mwy.

Bydd panel o feirniaid arbenigol yn cyflwyno tystysgrif i bob grŵp, gydag adborth ar eu perfformiad, gyda rhai grwpiau

yn derbyn gwobrau. Bydd 30 o'r grwpiau hyn yn cael eu gwahodd i berfformio ym Mhroms Cerddoriaeth Ieuenctid yn Neuadd Frenhinol Albert o 10 i 12 Tachwedd.

Byddwch yn llawer gwell allan hefo Ni!

AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
IMPORTS	GERMAN	SWEDISH	
SKODA	BMW	PEUGEOT	FIAT
Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...			
Ceir Benthg AM DDIM Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD (01286) 673559 www.a-v-w.co.uk Car Service			
VOLVO	MERCEDES	SAAB	

Llund Piced o Ffeithiau Gwyrdd

Oeddech chi'n gwybod fod pedair miliwn tunnelli o sbwriel yn cael ei daflu bob blwyddyn yng Nghymru, digon i lenwi Stadiwm y Mileniwm bob 20 diwrnod? Neu fod 240 miliwn o glytiau parod yn cael eu taflu'n flynyddol, mae hynny bron yn 500 bob munud?

Dyna ddim ond dau o ffeithiau rhyfeddol sydd i'w darganfod yng nghyhoeddiad diweddaraf y Dref Wen *Y byd yn eich poced*. Wedi ei ysgrifennu gan Gwenith Hughes, sy'n arbenigo mewn amgylchedd a datblygu cynaliadwy. Mae'r llyfr poced hwn yn frith o ffigurau a ffeithiau chwim sy'n datgelu'r her a'r sialens sy'n ein wynebu heddiw wrth i ni geisio lleihau llygredd a gwastraff o bob math.

Mae'n drysorfa o wybodaeth amgylcheddol, o newid hinsawdd i dirlenwi ac o fasnach deg i nwyddau organig.

Mae'n cynnig hefyd awgrymiadau syml ar sut y gallwn leihau ein gwastraff drwy wneud newidiadau bach bob dydd yn y cartef, yn yr ardd, gydag anifeiliaid anwes, yn y gwaith ac wrth deithio yno.

Y byd yn eich poced: £3.99.

Cyrol Newydd i Godi Gwên

Mae *Hiwmor Llafar Gwlad* (Gwasg Carreg Gwalch) yn gasgliad gogleisiol o'r goreuon o blith llu o ymadroddion a straeon digri sydd wedi ymddangos yn y cylchgrawn gwerin *Llafar Gwlad* 'hyd yn hyn'.

Gyda chartwnau digri gan Mei Mac, mae'r dywediadau wedi eu rhannu'n adrannau gwahanol, gan gynnwys straeon a dywediadau doniol gan blant, cyfarwyddiadau blêr, hiwmor Iwerddon, ystyrion anfwriadol sy'n cosi'r dychymyg a straeon doniol sy'n digwydd bod yn wir.

Mae'r ail adran yn llawn o lafar lliwgar sydd i'w glywed bob dydd - yn atebion parod a'r ddawn dweud sy'n ein rhoi ni yn ein lle.

Yn yr adran olaf, mae'r golygydd, Myrddin ap Dafydd, yn edrych ar y cyfieithiadau a'r cam-deipio anffodus sy'n troi hysbysebion ac adroddiadau yn y wasg yn llawer mwy o hwyl. Mae'r llyfr yn gyfle i chwerthin yn uchel gan fwynhau anlwc a cham-ddweud eraill ac yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni i gyd yn gwneud a dweud pethau dwl weithiau!

Hiwmor Llafar Gwlad: £8.50



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: williamsgw@parliament.uk

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar y 3ydd o Fehefin. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Llwyd Jones.

Dymuna'r Cyngor longyfarch **Mr Goronwy Jones, Cilan, Bethel**, ar gael ei anrhydeddu â Medal Gee. Llongyfarchion, Goronwy, a diolch am wasanaeth oes i'r achos ym Methel, dymuniadau gorau i chi a Mair eto i'r dyfodol. Llongyfarchion hefyd i **Huw Alun Foulkes, Bethel**, ar ennill y Fedal Ddrama ac i amryw o rai eraill am eu hymdrech a'u llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Dywedodd y Clerc bod **Mr Idris Morris** adref ar ôl cyfnod o tua tair wythnos yn yr ysbyty. Penderfynwyd anfon gair i ddymuno'n dda iddo ac i gofio ato.

Tai fforddiadwy. Croesawodd y Cadeirydd Mr Aled Evans, Swyddog Tai Fforddiadwy, Cyngor Gwynedd, i'r cyfarfod. Rhannodd Mr Evans gopiâu i bob aelod o ganllawiau Gwynedd ar y pwnc, a'i gyflwyno fesul penawd. Trafodwyd y ddogfen ac amlygwyd nifer o anhawsterau a cham-ddehongli sydd wedi digwydd. Trafodwyd y fantais o wneud arolwg lleol, dywedodd Aled Evans mai tua £1,000 fuasai'r gost. Penderfynwyd i'r aelodau wneud arolwg trwy ddosbarthu holiaduron yn eu hetholaethau a gwahodd Aled Evans i gyfarfod eto pan fydd yr atebion i law.

Cofnodion Mai Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Cyflwynwyd pris Mr Gareth Roberts ynglŷn â chyhoeddi map/taflen o hanes yr ardal:

Gwasg Dwyfor am rediad o 5000 copi - £1,450; (nid oes fawr o wahaniaeth rhwng argraffu mewn lliw yn hytrach na du a gwyn, dim ond rhyw £100 yn llai fuasai rhediad o 2,000).

Gareth Roberts am ddylunio taflen: £400;

dylunio map wedi ei seilio ar ffotograffiaeth awyrol ar bapur A1: £200.

Cyfanswm Gareth Roberts: £650. Cyfanswm y cyfan: £2,100.

Cynigiwyd symud ymlaen trwy gyfarfod i ddidol y straeon yn gyntaf ac wedyn gwahodd Gareth Roberts i drefnu'r gwaith.

Mainc Dinorwig Dywedodd Len Jones bod Mr Ken Latham wedi ei sicrau ei bod yn amhosib atgyweirio'r fainc, ond buasai Parc Padarn yn barod i leoli mainc newydd ar y safle. Penderfynwyd gofyn i Menter Fachwen am fainc newydd yr un fath â'r meinciau mileniwm. Hefyd trin y lleill (Bethel, Bryn

'refail, Pensarn, Pen y Golwg a Rhiwlas) â *varnish* neu ddeunydd pwrpasol arall.

Côd Ymddygiad Cyhoeddwyd hyfforddiant ar y cod ar y 7ed o Orffennaf yn Siambr Dafydd Orwig.

Rheolwyr Rhawd yr Heddlu Ateb Yr Arolygydd Keith Ellis:

- bod Joanna Clarc wedi ymuno fel Plismones;
- bod Gethin Jones wedi symud i swydd Rheolwr Rhawd yng Nghaernarfon;
- mae Michael Davies, Swyddog Cefnogi Cymuned, wedi ei benodi dros dro i ardal Llanddeiniolen;
- mae Swyddogion Cefnogi Cymuned yn derbyn hyfforddiant ar hyn o bryd a gwneir pob ymdrech i benodi siaradwr Cymraeg i'r ardal yma.

Materion Priffyrdd - ateb Meirion Williams

- y rhoir sylw i'r coed a'r gordyfiant ar ochr ffyrdd Penisa'rwaun a Deiniolen ar ôl tymor nythu adar;
- nid oes amserlen ar gyfer ailwynebu'r ffordd i fyny i Rhiwlas.

Penderfynwyd ysgrifennu at Dewi V Rowlands i bwysleisio'r ffaith bod ffordd Rhiwlas mewn cyflwr difrifol, yn beryglus ac angen sylw buan. Hefyd, ateb Meirion Williams i ddweud bod y Cyngor wedi addo torri'r coed uchod ers sawl blwyddyn (dywedodd Aled Green bod 80 o goed yn ochr Ffordd Winllan) a bod angen torri coed ger Erddig, Tŷ Newydd a Hafan, Penisa'rwaun a ger Rhydfadog, Deiniolen, lle mae'r tyfiant yn amharu ar geir sy'n dod allan i'r ffordd fawr.

Meddygfa Deiniolen

Darllenwyd ateb Mrs Donna L. Hughes, Rheolwraig y Feddygfa, yn amau honiad y Cyngor bod claf wedi ei throï yn ôl am bod 16 wedi cofrestru o'i blaen. Dywedodd y Clerc na fuasai'n deg enwi'r claf ond bod yr hanes yn wir, a'i fod yn synnu at y fath ymateb.

Ychwanegodd Len Jones ei fod wedi trafod hyn gyda Mrs Hughes a Dr Robin Parry a'u bod wedi ei wahodd ef a dau Gynghorydd arall i'w cyfarfod. Gwirfoddolodd Gwilym Williams i fynd yno gyda Len Jones.

Priffyrdd Cyfeiriodd Huw P. Hughes at y cais am arwyddion i arafu trafndiaeth trwy Seion. Rhoddwyd cyfrifydd yno eto ond isel iawn oedd cyflymder y ceir a phenderfynwyd gosod arwyddion 'Anaddas i Gerbydau Trymion' yno. Profodd y cyfrifydd drafnidiaeth o 4000 o geir y dydd trwy Seion.

Gohebiaethau eraill

A487 Llanwnda at Blas Menai Derbyniwyd gwahoddiad ARUP i gyflwyno canfyddiadau'r astudiaeth yn Siambr Dafydd Orwig ar y 5ed o Fehefin, gwirfoddolodd Huw P. Hughes i gynrychioli'r Cyngor.

Cae Chwarae Dinorwig. Cyflwynwyd llythyr Sara Wood yn gofyn am arwydd 'Dim Cŵn' ar ffens y cae. Cefnogwyd hyn gan benderfynu gofyn i Wynedd am arwydd o'r fath ar bob cae chwarae o fewn y gymuned.

Heddlu Dywedodd Hefin Williams bod yr Heddlu wedi gwneud i ffwrdd â Phlismon Defaid, adnodd a oedd o fantais fawr i'r gymuned, ond ar yr un pryd cyflogi plismyn ar geffylau ym Mae Colwyn! Roedd PC Dorian Roberts y Plismon ffermio/defaid yn gwneud mwy nag oedd yn ofynnol ohonno ac yn cydweithio'n dda gyda'r *setwyr*, fel Mr Dafydd Morris, Cefn Coch. Bydd colled ar ei ôl - danfon cwyn i'r Heddlu.

Cyflwynwyd adroddiad **GIG** a gwirfoddolodd Elspeth Mitcheson fynd i gyfarfod y Gwasanaeth ar ran y Cyngor.

Cofebion Gofynnodd Hefin Williams a oedd ateb o Wynedd i'n cwyn am gyflwr y cofebion ym mynwent Macpela. Penderfynwyd atgoffa Mr Alun Wyn Jones, Swyddog Bwrdeistrefol Gwynedd (Cibyn).

Dryll Deiniolen. Atebodd y Clerc Len Jones nad oedd ateb oddi wrth Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r parcio ar y ffordd fawr. Penderfynwyd atgoffa Gwynedd ac adrodd i'r Heddlu.

Cynllunio

Dywedodd Huw P. Hughes nad yw Swyddogion Gwynedd yn ystyried sylwadau'r Cyngor Cymuned, mae caniatâd cynllunio wedi eu rhoi yn groes i benderfyniad y Cyngor - llythyr i Alun Ffred Jones AC. Hefyd adrodd i Un Llais Cymru gan ofyn beth sy'n digwydd mewn cymunedau eraill.

Codi tŷ ger Weirglodd Goch, Brynrefail - ateb Gwynedd: 'nid yw'r tir yn ffinio'n union â'r ffin datblygu, fel a ddisgrifir yng Nghynllun Lleol Arfon, oherwydd bod gardd a mynediad wedi eu creu i wasanaethu Cynefin. Er gwaethaf hyn nid oes bwlch amlwg rhwng Weirglodd Goch, sydd y tu mewn i'r ffin datblygu, â safle'r cais. Mae'r fynedfa / gardd sydd yn ffinio â'r ffin datblygu o naws trefol ac yn ffurfio rhan o gwrtil Cynefin. Ystyrir bod safle'r cais wedi ei leoli gyferbyn â phentref Penisa'rwaun. Bydd rhaid i'r ymgeisydd brofi bod ei gynllun fframwaith yn gymwys ar gyfer tŷ fforddiadwy.'

Ceisiadau a dderbyniwyd Ysgubor, Penisa'rwaun: estyniad i'r cefn.

Tir ger Rhiw Goch, Clwt y Bont:

adeiladu tŷ a mynedfa.

Tir ger Tŷ Oer, Clwt y bont: adeiladu tŷ a gwella'r fynedfa.

Tŷ Cefn, Llanddeiniolen: dymchwel y porth ac adeiladu ystafell wydr.

Weirglodd Las, Penisa'rwaun: codi byngalo a mynedfa newydd.

Tu cefn i Bro Rhiwen, Rhiwlas: cais amlinellol i godi un annedd. Tafarn Gors Bach, Bethel: newid defnydd y maes parcio i werthu ceir.

Apel gan Gyngor Gwynedd i'r Cynulliad: ystafell wydr heb ganiatâd o flaen Penmaen, Saron, Bethel.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd

Tan y Fron, Fachwen: gosod tanc nwy.

Tŷ'n Llidiart, Rhiwlas: estyniad gwydr.

Caban Cyf, Brynrefail: gosod twneli poli i wneud gardd cegin.

35, Bro Rhiwen, Rhiwlas: cais amlinellol i godi tŷ.

Bryn yr Adar, Deiniolen: porth.

Bryn Goleu, Lôn Garrat, Dinorwig: estyniad.

1, Dinorwig House, Dinorwig: tocio 3 coeden.

Llwybrau Cyflwynodd Hefin Williams luniau a map o leoliadau sydd angen sylw ar lwybrau Carreg y Gath, Rhiwlas. Penderfynwyd cysylltu â Gwynedd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 15ed o Orffennaf.



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol


Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

**Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun**



Y SAMARIAID
(01248) 674985

CHWILOTA

CYFLWR IECHYD ARDAL DINORWIG



YN ystod mis Chwefror 1898 roedd Prif Swyddog Iechyd Cyngor Sir Gaernarfon, y Dr P. Fraser, yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r Cyngor ar nifer o faterion yn ymwneud â iechyd trigolion y sir. Roedd rhan o'r adroddiad hwnnw yn rhoi gwybodaeth am achos o deiffoid yn ardal Dinorwig yn gynharach yn y mis.

Torrodd yr afiechyd allan mewn tri o dai ym Mhenybwlch, Top Inclên, Dinorwig. Adroddwyd fod pawb wedi gwella'n foddhaol ar wahân i un bachgen tair ar ddeg oed, sef mab William Hugh Jones, Penybwlch. Roedd hwnnw'n wan iawn, ac yn amlwg nad oedd yn cael digon o fwyd maethlon. Pan ymwelodd y meddyg â'r tŷ, doedd neb yno i ofalu amdano, er fod y fam wedi bod yn dioddef o'r afiechyd, ac wedi gweld y meddyg ei hun rai dyddiau ynghynt.

Roedd dau o'r tai yn cael eu cyflenwad dŵr o bibell oedd yn casglu dŵr o'r caeau yng nghefn y tai. Roedd y trydydd tŷ yn cael dŵr o ffynnon fas gerllaw'r tŷ. Roedd y meddyg o'r farn mai dŵr llygredig oedd achos yr haint, a chafwyd gwybod fod y mân gaeau tu cefn i'r tai wedi eu teilo'n helaeth yn ystod yr wythnosau cynt. Credid hefyd fod carthion o doiledau wedi eu gwasgaru efo'r tail ar hyd y caeau. Does ryfedd felly fod y dŵr wedi ei lygru!

Dadansoddwyd y dŵr o'r bibell a'r dŵr yn y ffynnon, ac er nad oedd yn hollol lân, roedd 'yn eithaf pur' yn ôl barn y meddyg, ond fod posibilrwydd ei fod yn cael ei lygru yn achlysurol, yn dibynnu ar yr hyn ddigwyddai yn y caeau tu cefn.

Adroddodd hefyd fod gordyrru yn broblem arall yn y tai, ac nad oedd hynny o ddim llês i iechyd y trigolion. Yn nhŷ Robert R. Williams, roedd un ar ddeg o unigolion yn rhannu dwy lofft. Roedd estyniad bychan wrthi'n cael ei adeiladu yno, a gallai hynny liniaru peth ar y broblem gordyrru. Pwysleisiodd y meddyg hefyd yr angen am doiled bwced yn nhŷ William Hugh Jones.

Yn gyffredinol, roedd angen cyflenwad helaeth o ddŵr glân yn ardal Dinorwig, ac yn enwedig yng Ngallt y Foel, gan fod dros ddau gant o bobl yn byw yno, a'r cwbl yn dibynnu am ddŵr o fân nentydd, pibellau a ffynhonnau nad oedd unrhyw sicrwydd ynglŷn â'u glendid.

Tybed faint o amser aeth heibio cyn i drigolion ardal Dinorwig a Gallt y Foel gael cyflenwad o ddŵr glân yn ôl argymhellid y Swyddog Iechyd?

Boddi yn Llyn Penrallt, Fachwen

Pe bai plant ysgolion yr ardal yn cael eu holi am enwau llynoedd yr ardal heddiw, prin y byddai unrhyw un ohonynt yn gwybod ble mae, neu ble roedd yn hytrach, Llyn Penrallt. Mae'r argae oedd yn cronni'r dŵr ar gyfer Melin Bedwargoed wedi dymchwel, a'r llyn bellach wedi sychu, ond fe

welir ei olion ar ymyl y llwybr sy'n arwain i mewn i Barc Padarn o ardal Chwarel Goch, Fachwen.

Yno, yn 1892, y collodd Griffith Jones, Ysbyty Fachwen, ei fywyd dridiau wedi'r Nadolig. Roedd wedi bod yn fis eithriadol o oer, a'r llyn wedi rhewi drosto. Aeth dau o fechgyn ifanc yr ardal i sgelfrio ar y rhew, sef Griffith, a'i frawd, Robert. Torrodd y rhew o dan bwysau'r ddau, a suddodd Griffith i'r dŵr oerllyd. Rhywsut, medrodd Robert grafangu i'r lan a mynd i chwilio am gymorth. Daeth Rowland Williams, Chwarel Goch, yno gyda phicwach. Plygodd flaenau pigfain y picwach i wneud bachau a cheisio eu bachu am ddillad Griffith. Fe'i tynnwyd i'r lan, ond roedd y gŵr ifanc un ar hugain oed eisoes wedi marw.

Yn y cwest, adroddodd John William Jones, Tan y Graig, Fachwen, ei fod yntau wedi bod yn sgelfrio ar y rhew, a'i fod dros chwe modfedd o drwch. Ni allai egluro pam y torrodd rhew mor drwchus o dan y ddau ŵr ifanc.

Ymateb i eitemau mewn rhifynnau cynharach...

Côr Adrodd Llanrug

Gan Brenda Jones, Betws Garmon (Crawia, Llanrug, gynt) y daeth galwad ffôn cyn i'r inc sychu ar y papur bron! Roedd dwy o'r merched yn y rhes gefn o'r llun yn dod o Crawia. Yn drydedd o'r chwith yn y rhes gefn mae Gaenor Williams, sydd bellach dros ei deg a phedwar ugain ac yn byw yn Ninbych gyda'i merch. Yn bumod o'r chwith yn yr un rhes mae Mary Williams, un arall o ferched Crawia. Mae'n bosibl fod y ferch sy'n eistedd wrth ymyl Llinos Gwynedd hefyd yn dod o Crawia, ond ni chafwyd cadarnhad o hynny hyd yma.

Teulu'r Clossiaid

Bydd y gangen Americanaidd yn ymweld â'r ardal yn ystod mis Awst, ac y mae cysylltiadau ac aelodau eraill o'r teulu eisoes wedi eu gwneud yn barod i'r achlysur. Daeth llawer o nodiadau am y Clossiaid ar e-bost i mi gan Olwen Ebrell, ond oherwydd i'r cysylltiad ffôn ym Mhontrhythallt gael ei dorri i ffwrdd am wythnos gyfan, cefais drafferthion i lawr-lwytho'r wybodaeth. Gobeithio y gellir cynnwys y wybodaeth a hanes yr ymweliad â Nant Peris yn ystod y rhifyn nesaf. Am fwy o wybodaeth am yr achlysur, mae croeso i unrhyw un â chysylltiadau efo teulu'r Clossiaid gysylltu â Margaret Roberts, Rhedynog, Ffordd Bethel, Caernarfon.

Poteli Thomas & Edwards, Caernarfon

Gyda diolch i T. Alun Jones,

Bethel, am anrheg o gorcyn potel yn dwyn yr enw 'Thomas & Edwards'. Yn anffodus, nid yw'n ffitio y botel bridd sydd yn fy meddiant!

Ond mae'n gorcyn anghyffredin, oherwydd mae wedi ei wneud o bren tywyll, ac enw'r cwmni wedi ei fathu arno. Sgwn i pam y defnyddiwyd corcyn pren ar boteli?

Teulu Llinos Gwynedd a'i gŵr

Adroddais yn y rhifyn diwethaf fod Llinos Gwynedd, sef Florence Jones o Gaernarfon, wedi priodi â milwr o Awstralia. Ychydig a wyddwn ar y pryd fod cysylltiadau lleol gan ei gŵr, ac rwy'n ddolchgar iawn i Miss Ceridwen Foulkes, Deiniolen, am wybodaeth gynhwysfawr amdano.

Ei enw oedd Charles Beecher Jones, ac fe'i ganwyd yn Melbourne, Awstralia, ond roedd ei dad yn frodor o Graig y Dinas, Cwm y Glo (neu Stabla ar lafar i'r mwyafrif o drigolion yr ardal). Mudodd i Awstralia yn ŵr ifanc a phriodi yno.

Ymunodd Charles Beecher Jones â'r fyddin yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gan wasanaethu gyda'r 'Field Ambulance'. Yn 1917 yn Ffrainc, bu cyd-ddigwyddiad rhyfeddol. Cyfarfu Charles Beecher o Awstralia â John



Charles Beecher Jones a John Coedparc, Penisa'rwaun yn Ffrainc, 1917.

Coedparc, Penisa'rwaun - y ddau yn gefndryd cyfan!

Un arall o'r teulu oedd Ruth Jones, Siop Fron Oleu, Pontrhythallt; y bu llawer o'i hanes eisoes yng ngholofnau'r *Eco*. Mae'r enwau Siop Riwth ac Allt Riwth yn gyfarwydd iawn i lawer o'r darllenwyr.

Mae Miss Foulkes hefyd yn hanu o'r un teulu gan fod Charles Beecher yn gefnder i'w mam.

Glan Alaw, Brynrefail

Gan Miss Foulkes hefyd y daeth yr wybodaeth fod cofgolofn y Parch Richard Jones (Glan Alaw), ei wraig, Mary, a'i ferch, Alice, ym mynwent Macpelah. Mae eraill o'i blant, sef Arthur, Richard ac Eliza, wedi eu claddu mewn bedd cyfochrog.

Glan Alaw ei hun ysgrifennodd y cwpled ar fedd ei wraig:

'Pob awr a gwawr rhagoriaeth,
Yn ei hoes yn gu a wnaeth.'



Y Parch Richard Jones (Glan Alaw).

Derbyniwyd llawer mwy o wybodaeth am ardal Deiniolen a Chlwt y Bont gan Miss Foulkes a gobeithiaf gynnwys detholiad ohono yn ystod misoedd y gaeaf. Gyda diolch i bawb a gysylltodd ynglŷn â gwahanol eitemau dros y misoedd diwethaf. Mae'n anodd cadw i fyny â phob ymholiad ac ymateb! Yn y cyfamser, mwynhewch wyliau'r haf, ac ewch i grwydro rhai o lwybrau'r fro, yn enwedig rhai ag enwau iddynt - fel Llwybr y Carw, sy'n arwain o'r Nant Ucha i Gwm Idwal. Rhowch wybod am fwy ohonynt, ac anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**
Ffôn: 01286 870462
Symudol: 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



AROS PRYD

hefo'r 'un garw am ei fol'



CAFFI'R FFWNTAN, YR AMGUEDDFA LECHI, LLANBERIS

Ers rhai blynyddoedd bellach oherwydd cysylltiadau Taid Ty'n Bonc hefo'r chwarael, a'r parch tuag ato a phobol y chwaraeli, bu'r caban yn rhan allweddol o'm bywyd. Dyma'n wir i chwi Goleg y Werin Bobol. Yma, plethid ynghyd ddiwylliant ac addysg rhad, a hynny oddi tan yr un gronglwyd. Yma, cafwyd dechreuad y Brifysgol. Ia, yn ei cwr mawr ni o'r ddaear, y daeth hynny i fodolaeth, yn ogystal â thrafodaethau ynghylch pregethau'r Sul, eisteddfodau, gwleidyddiaeth a gwella amodau byw.

Does ryfedd imi ddechrau'r gyfres gyfredol hefo Caban, Brynrefail. Lluast. Man cyfarfod. Lle i hamddena dros dro ynddo. Mangre addysg. Man diwyllio. Man dod i nabod. Ia! nabod pobol.

Y tro hwn, cyrchwyd i Gaffi'r Ffowntan, yr Amgueddfa Lechi'n Llanberis. A fuoch chwi yno? Cwestiwn llawn tegwch! Dicini bod rhai miloedd, yn oedolion, plant ac ieuenctid, yn ymweld hefo'r Amgueddfa Lechi yn y Gilfach Ddu, a hynny'n flynyddol.

Teirpant y dydd ydyw'r pris am barcio eich car, fen, (wn i ddim am gamel neu geffyl!), yn y Maes Parcio. Campus wir! Ac os ydych hefo torllwyth o blant, yn ddi-waith, neu'n bensiynwr, rhywbeth i'w groesawu ydy hyn i gyd! Yn sicr, o safbwynt trefnwyr, y mae hyn oll yn atyniad, hynny ydy os mai eich bwriad ydy denu pobol ac ieuenctid i aros, a rhoi cyfle da iddynt ymweld â'r rhanbarth diddorol hwn o Lanberis.

Ceir prisiau ysglyfaethus o ddrud mewn sawl man parcio yng Ngwynedd! Rhag cywilydd yn wir! Cyfalafiaeth, a dim byd arall, a welir ar ei drechaf! Yr unig beth y gellir ei alw'n ddiffygiol yn y Gilfach Ddu ddyweda i ydy diffyg bwrdd hysbysebu digon canolog, sy'n annog ymwelwyr i ymweld â gweddill Llanberis! Gair i gall fel petae wrth fynd heibio!

A'r llecyn yn y Gilfach Ddu? Oes! y mae yma'r gorffennol wedi ei ffosileiddio a'i ddwyn yn gyfrwng byw, diolch i bobol dda

pentref Llanberis a Dafydd Roberts, y Curadur rhadlon, brodor o Dregarth, a'u gweledigaethau, eu hymroddiad a'u dyfalbarhad.

Ac, wedi crwydro oddeutu'r Amgueddfa, a chael sgwrs tu hwnt o ddifyr hefo cyfaill hynod hynaws o garedig, o Fethel, Arfon, (diolch enbyd i rai fel chdi am neilltuo dy amser i gynnal geiriau a'm cyfarwyddo), a hefyd nifer o'rh gyd-weithwyr dygn, a ddysgodd i un annysgedig fel fi gryn dipyn am gyffro ein gorffennol, dyma benderfynu torri syched a llenwi mymryn go fawr ar y twll dibendraw yn yr hen stumog!

Ia, ei hanelu hi am Gaffi'r Ffowntan, a chael cwmni rhadlon Gwilym Owen Bi Bi Ec Cymru. Na! wrth fwrdd graenus o lân, cysurus o ran eisteddle, oddi tan ddarlun amheuthun o chwaraelwr yn hollti carreg wedi ei osod ar y mur, llais ar y radio sain yn unig ydoedd Gwilym.

Braf oedd clywed y Gymraeg rywiog yn y cefndir, ac nid ryw sothach go iawn ar sianel estronol, fel ag sy'n digwydd mewn llawer gormod o'n caffis yng Nghymru. Yn bennaf oll, gwraig ifanc, sef Bethan Wyn Jones, a'i chyd-weithwraig, a fu'n gofalu'n dyner amdanaf. Anodd oedd dewis beth i'w fwyta. Onid oedd y fwydlen yn llawn o ddewisiadau amrywiol - o gawl a rhôl am £3.45; lobscows ac ati am £4.95; tatws yn eu crwyn, hefo dewis go dda o ran cynhwysion am £2.95. O'r argian unwaith! Y diwedd fu imi ddewis tosti, yr anfarwol delpyn bara-wedi-ei-grasu, a haenau, (digonadd ohono! yn llechu'n drwchus), o gaws blasus a wynyn oddi mewn iddo. Hefo'r uchod yn ogystal cafwyd salad blasus! Do! mi wnes i archebu potiad iawn o de poeth hefyd! A'r dolc! Ychydig llai na phum punt! Anhygoel, wir i chwi!

A dyna gofio fy mhrofiadau tra'n teithio tu allan i Gymru! Ia! yn Llydaw, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Pwyl, ac weithiau dros Glawdd Offa, mewn lle o'r enw Lundain. Y mae'r cyfan yng Nghaffi'r Ffowntan yn haeddu

eich sylw, a'ch presenoldab o ran hynny. Peidiwch da chwi, yn eich bro eich hunain, â bod yn ddiarth i'r hyn sy'n werth ei gael! Dyma gaffi arall yn nalgylch *Eco'r Wyddfa* sy'n gwbwl tra-rhesymol o ran ei brisiau, ac yn paratoi bwydlen aml-ddewis gogyfer â phob oedran, gan gynnwys yr hen blantos.

Dotiais hefyd at amynedd di-bendraw a chyfeillgarwch y staff, a bod y ddarpariaeth a gynnigir yn rhoi cyfle da i gludo bwydydd a diodydd hefo chwi o'r caffi. Dyma'r blychau cinio £3.25 bondigrybwyll gwerth eu cael! Yn hyn o beth rhaid eich canmol chwi, drefnwyr y caffi! Y mae cynnal gwasanaeth cludo prydau a diodydd i'w gymerdwyo, yn enwedig os ydych hefo taith hirfaith adref ar fws neu gar, o'ch blaen.

Sylwais hefyd fod yma ddefnydd helaeth o gynnyrch cartef Cymreig! Bendigedig wir! Hufen iâ Môn! Ym! Ym! Ac wedi dau o'r gloch bob pnawn, yn ddi-wahaniaeth, paratoir Te Cymreig!

O ddal sylw ar y muriau o'm cwmmpas, sylweddolais fod nifer o bethau atyniadol eraill yma, gan gynnwys hysbysebu, hefo'r Gymraeg yn cael blaenoriaeth! Fel'na y dylai hi i fod ymhob caffi, nid yn unig yn nalgylch *Eco'r Wyddfa*, ond yng Nghymru benbaladr. Ond dyna fo, nid pawb sydd hefo'r weledigaeth a'r cariad angerddol tuag at y Gymraeg.

Gresyn na fyddai ein cyd-frodyr yng Nghymru, fel ac a geid yng Nghaffi'r Ffowntan, ac Amgueddfa Lechi Cymru.

Y diwrnod hwnnw, tra'n mwynhau pryd yng Nghaffi'r Ffowntan, bu imi gyfarfod dau o'm cyd-wladwyr, a oedd wedi teithio am yr eildro yn eu hanes o Gwm Rhondda i Lanberis. Da y cofiaf fy mhrif ddarlithydd yn y Gymraeg, sef y diweddar Dewi Machreth Elis, a hynny yn ei gartref yn Nhregarth, yn dweud wrthyf un tro,

'Wnei di ddim dallt yr un gair â ddywaid y wraig wrthyf ti. Un o Gwm Rhondda ydy hi!' Ond, uwchben teisen, cacen i ni, a phanad o de, hawdd cynnal Cymreictod. Na! ni ddaeth i ben hyd yma y weriniaeth sy' ynghlwm wrth y Gymraeg! Ac mi fuaswn, coeliwch chwi fi, a hynny drwodd a thro hefo fy llaw wedi ei hystemyn dros fychander fy nghalon, yn eich annog i ymweld, a hynny'n lled fuan, â Chaffi'r Ffowntan Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis.

Caffi'r Ffowntan - Yn agored rhwng 10.00-15.30 yn ddyddiol, ond y mae 'na wahaniaeth dybryd yn yr amseroedd agor a chau, pryd hefo'r cloc y newidir trefn yr awr. Ymholwch os gwelwch yn dda hefo'r Amgueddfa, a defnyddiwch y rhif teliffon, am fwy o fanylion. (01286) 870 630.

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban
CYF



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref

01248 679089 • 01286 830996

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA



Llun a gafwyd gan un o'r darllenwyr.
Oes gan rhywun wybodaeth?

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwallth), 677438 (cartref)

OEDFAON Y CAPEL. Cynhelir yr oedfaon canlynol yn ystod mis Gorffennaf:

6: 11.00 Ysgol Sul;
2.00 Parch Harri Parri.

13: 11.00 Ysgol Sul.

20: 2.00: Mr Gwynfor Roberts.

Ni fydd cyfarfodydd yr Ysgol Sul nag oedfaon y Capel yng Nghaeathro tan fis Medi.

TYNFA MISOL. Enillwyr tynfa misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Mehefin oedd:

£40: (8) Mrs M. Frances, Bodwyn;
£25: (31) Mr a Mrs Griffiths, Delfryn; £15: (66) Ms N. Hughes, 10 Rhes Glangwna; £5: (1) Mr D. Iwan, Carrog.

MIRI HAF. Bydd ein Miri Haf eleni ar ddydd Sadwrn, 12 Gorffennaf, o 2.00 ymlaen ar yr Hen Gae Chwarae. Bydd yno stondinau, rasmus i blant, adloniant a lluniaeth ysgafn.

YMADAWIAD. Gadawodd Carey a Richard Jones, Tryfan, y pentre ar 27 Mehefin, i fyw yn ardal Charente-Maritime yn ne-orllewin Ffrainc.

Dymuna Carey a Rich ddiolch o galon i bobl Caeathro am eu cyfeillgarwch a'u caredigrwydd tuag atynt yn ystod yr 17 mlynedd y buont yn byw yn y pentref. Bu'r cyfnod yma yn un hapus iawn iddynt - mae cymdeithas agos pentref a phobl Caeathro yn un arbennig iawn i fyw ynddi.

Diolch yn fawr iawn i bawb - cofiwch alw os byddwch yn pasio - bydd croeso yn eich disgwyl.

TRIGAIN MLYNEDD O WASANAETH.

Llongyfarchiadau i T. Elwyn Griffith, Erw Wen, am osod y sylfeini ac am yr holl wasanaeth a roddodd i 'Undeb Cymry ar Wasgar' o'r dyddiau cynnar yn Yr Aifft hyd heddiw. Diolch a da iawn chi.

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

urth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903



ANTUR WAUNFAWR

Oes gennych ddiddordeb yn hanes Waunfawr?

Rydym am ail-greu
Siop Bryn Pistyll a chael
arddangosfa o hanes Waunfawr
dros y blynyddoedd

Oes gennych ddiddordeb neu
ychydig o amser i fod yn un o
'Ffrindiau'r Antur'?

Yna dewch draw i
Caffi Blas y Waun nos Fercher
Gorffennaf 9, 2008 am 7 o'r gloch
I drafod eich diddordeb cysylltwch
â: Gill Wyn neu Menna Jones
01286 650 721

D YSGOL YRRU L AL-DRIVE LLANBERIS A'R ARDAL

- GWERSI FESUL AWR
- CYRSIAU GLOYWI
- GOSTYNGIAD PAN YN BWCIO MEWN BLOC
- HYFFORDDLANT TRAFFORDD
- "PASS PLUS"- YSWIRIANT RHATCH!!
- GWERSI DWYIEITHOG

ALED JONES A.D.I

FFÔN:- (01286) 872144 / 07917888631 /www.aldrive.net

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Cyngor Gwynedd yn Hyrwyddo Wythnos Diogelwch Bwyd



Gwyndaf Appleton Davies o Fethel yn derbyn ei wobwr gan Bleddyn Davies, Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd. Roedd yn gyd-fuddugol am dynnu llun 'germ' yng nghystadlaethau Uned Diogelwch Bwyd Cyngor Gwynedd ar y cyd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd i hyrwyddo'r Wythnos Diogelwch Bwyd Genedlaethol.

CHWARAEON

TYMOR O LWYDDIANT



Tîm Bethel Dan 15 – Tîm y dwbwl.



Tîm Bethel Glas – Tîm y Twrnamantau.

Bydd cryn ddathlu yn noson wobrwyo clwb pêl-droed Ieuencid Bethel eleni. Wedi'r gwaith caled i gael maes safonol yn y pentref, yn awr mae'r egin yn dechrau blaguro.

Canolbwyntiaf y tro hwn ar lwyddiant ysgubol y ddau dîm dan 15 – Bethel a Bethel Glas.

Tim Bethel yn gyntaf. Gall y rheolwr, Andrew 'Benitez' Williams a'i gynorthwywr, John Griffiths, fod yn hynod falch o berfformiadau'r hogiau. Enillwyd Cynghrair Dodrefn Pin Gleneagles drwy fynd gydol y tymor heb golli gêm. Chwaraewyd 14 gêm, gan ennill 13 ac chafwyd un gêm gyfartal. Honno oedd gêm gynta'r tymor – yn erbyn Bontnewydd – gêm ddi-sgôr. Yn fwy anhygoel, sgoriwyd 43 gôl ac ildio un yn unig! Yn rhyfeddol sgoriwyd y gôl honno gan dîm Penrhos mewn gêm lle'r enillodd Bethel 10-1. Aethpwyd ymlaen i gipio'r dwbwl pan drechwyd Nantlle Vale 5-2, i gipio Cwpan y Gynghrair.

Ond nid pysgodyn mawr mewn pwll bach oeddynt. Cafwyd rhediad da yng Nghwpan Gogledd Cymru cyn colli o 5-2 yn erbyn Y Rhyl.

Hoffai'r tîm gydnabod nawdd hael Mike Bulloch o gwmni Ffenestri Cymru, Bethesda.

Yna Bethel Glas. Trydydd oeddent hwy yn y gynghrair ond cipwyd Cwpan Chwarae Teg y gynghrair ganddynt drwy guro Penrhos o 3-2. Gyda llaw cafwyd dwy gêm ddarbi dda gyda thîm Bethel yn ennill y ddwy gêm o 1-0. Mi ddyfarnais i un o'r gemau, a rhaid canmol safon ac ymroddiad y ddau dîm. Mae meithrinfa dda yma i'r tîm hyn mewn tymor neu ddau.

Y gwir lwyddiant i'r Gleision oedd ennill dau dwrnament safonol iawn – yn Blackpool ac yng Nghaer. Yn Blackpool roedd 30 o dimau o Loegr, Iwerddon a'r Alban yn ymgiprys, ond yn ôl i Fethel fach y daeth y tlws. Penwythnos i'w gofio i'r hogiau.

Yna taith i Gaer ac, wedi saith gêm galed, ennill yno hefyd. Tipyn o bluen yng nghap Paul Williams ac Andy Bell, y rheolwyr. Unwaith eto elwodd y tîm o nawdd hael teulu Post Bethel. Gosododd y tîm eu stamp ym Mlackpool a Chaer!

Nid oes sicrwydd a fydd yn rhaid i'r ddau dîm chwalu eleni, gan efallai fod bwriad gan bwyllgor y gynghrair i newid yr ystod oedran i -12, -14 a -16. Braf fuasai gweld y ddau dîm yn mynd ben-ben â'i gilydd am dymor arall. I chwi bentrefwyr maent yn werth eu gwyllo.

AGWEDD YR AWDURDODAU

Dau ddigwyddiad o fyd criced a phêl-droed dynnodd fy sylw yn ddiweddar. Ym myd criced gwelwyd dwy 'shot' anhygoel am 6 gan Kevin Peterson yn erbyn Seland Newydd. Yr hyn oedd yn rhyfeddol oedd ei fod wedi newid dwylo o'i dde arferol i'r chwith yn y rhan-eiliad roedd y bowliwr ar ollwng y bêl. Ergyd anturus yn dangos hyder reddfol Peterson. Ond yna'r cwyno. Beth am y rheolau yn ymwneud â choes o flaen wiced, a safle'r maeswyr? Gofynnwyd i'r MCC, y beirniad terfynol ar reolau'r gêm, am eu barn. Diolch fyth cafwyd ymateb cadarnhaol yn cefnogi menter Peterson.

Braf gweld hyn. Mae digwyddiad o'r fath yn rhoi gwefr i'r gwyliwr ac yn aros yn y cof. Os yw'r batiwr yn methu, arno ef bydd y farn yn disgyn nid ar y gêm.

Mor wahanol yn y byd pêl-droed. Bu Howard Webb yn ddigon dewr i roi cic gosb pan sylwodd ar amddiffynwr yn cydio yng nghrys ymosodwr. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd pan ddyfernir cic gornel neu gic rydd, ond anwybyddir ef gan y lliaws o ddyfarnwyr.

Yng Nghystadleuaeth Ewrop roedd Webb yn digon dewr. Ni chafwyd unrhyw ymateb gan yr awdurdodau ynglŷn â'r digwyddiad. Eto, mewn ffordd dan-din cafwyd ymateb. Cafodd Webb y 'frait' o ddyfarnu ail gêm – ond mewn gêm rhwng dau dîm oedd allan o'r gystadleuaeth beth bynnag!

LLWYDDIANT I'R WAUN

Ers 1989, bu Neuadd Waunfawr yn gartref i Glwb Bowlio Mat Byr y pentref. Yn yr 'oruwch ystafell' mae disgyblion y gêm wedi cynyddu dros y blynyddoedd a byddant yn cyfarfod ar bnawn a nos Fawrth ac Iau.

Ar nos Iau, fel arfer, chwaraeir gemau cartref y Gynghrair. Eleni, hwy yw Pencampwyr Cynghrair Gwynedd. Gan gynnwys Waunfawr A a B, mae naw clwb yn y Gynghrair, sy'n ymestyn o Lannerch-y-medd i Chwilog. Timau cymysg a geir gyda 10 aelod ym mhob carfan.

O'r tymor nesaf ymlaen bydd fformat y gemau cynghrair yn newid. Ar y mat 40 troedfedd o

hyd fe chwaraeir tair gêm parau ac un gêm pedwarawd. Dros Gymru gyfan ceir darlun o'r ieuencid yn cael eu denu at y gamp.

Mae'r tîm cenedlaethol yn cynnwys nifer o ieuencid dan 25. Gwahanol yw'r sefyllfa yma yng Ngwynedd – delwedd mae'r clwb yn ceisio ei wrydroi. I'r perwyl hwn mae elfen genhadol i'r clwb. Buasent yn hoffi gweld y pentrefi sydd â neuaddau cyfleus yn ffurfio clybiau. Yn amlwg mae elfen o gymdeithasu yn rhan anatod o'r gamp hon. Gellir cael grantiau gan y Cyngor Chwaraeon i bwrcasu offer.

Un o'r aelodau blaenllaw yw Emyr Wyn Evans, sydd yn hyfforddwr trwyddedig ac wedi cynhyrchio Cymru. Mae ef, ac aelodau eraill, yn barod i ddod i'r pentrefi i hyfforddi a chynnig sylwadau i gefnogi tyfiant yn y gamp. Eisioes maent yn ymweld â Llanberis. Cofiaf gystadleuaeth Ryng-bentrefol Cyngor Arfon flynyddoedd yn ôl ac roedd y gystadleuaeth bowlio yn boblogaidd iawn.

Daeth clod i'r clwb ym mis Mawrth eleni pan ddewiswyd Emyr a Dafydd Price i fod yn ddyfarnwyr mewn cystadleuaeth rhyngwladol rhwng deg gwlad draw yng nhwlad Belg.

Ond, yn ôl at y cystadlu. Enillodd Waunfawr 'A' y Bencampwriaeth.

Yng nghystadleuaeth agored Gwynedd daeth Emyr yn ail a Dafydd yn drydydd ac yna aethant draw i Landrindod i gynrychioli'r sir yn y gystadleuaeth genedlaethol. Daeth Emyr yn drydydd, a chafodd dreialon ar gyfer y garfan genedlaethol. Ymunodd John Wesley Evans â'r ddau i gipio Tlws Triplau Gwynedd.

Mae cryn gystadlu am y gwahanol gystadlaethau mewnol yn y clwb. Edrychaf ymlaen i ymuno â nhw yn eu Noson Wobrwyo draw yn y Snowdonia Parc ar Orffennaf 4ydd.

Dyma'r rhai fydd yn derbyn gwobrau ar y noson. Gobeithiaf gynnwys lluniau yn y rhifyn nesaf.

TLWS GOFFA TOM THOMAS: Emyr Evans.

CWPAN Y CAPTEN: Emyr Evans, Idris Evans.

CYSTADLEUAETH Y PARAU: Idris Evans / John Jones; Howie Edwards / John Turner.

CWPAN MODURDY PANT Y WAUN (Merched): Pearl Williams / Anne Williams.



Dafydd ac Emyr draw yng Nhwlad Belg.